Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 18fed Medi, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLEB 2017-18 | Cyng. Nia Jeffreys | Delyth Gadlys Williams | 4 - 36 |
| 6 | CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG | Cyng. Nia Jeffreys | Gwenllian Mair Williams | 37 - 62 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL | Cyng. Nia Jeffreys | Dilwyn Williams | 63 - 86 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DDATBLYGU'R ECONOMI | Cyng. Ioan C Thomas | Iwan Trefor Jones | 87 - 95 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GYLLID | Cyng. Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 96 - 134 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Medi 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679708** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2017-18** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r cabinet nodi a derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes cydraddoldeb, fel canlyniad i Gynllun Cydraddoldeb 2016-20 ac yn fwy eang. Mae'r adroddiad yn gofnod cywir o'r hyn sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Mae hefyd yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud Adroddiad Blynyddol ac i nodi gwybodaeth cyflogaeth bob blwyddyn (Deddf Cydraddoldeb 2010).

### 3 CYFLWYNIAD

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nododd y Cyngor y pedwar amcan y mae am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion wedi

eu dewis ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth fewnol, llais a chyfranogiad aelodau o'r cyhoedd a data ar nodweddion cydraddoldeb.

Yr amcanion ydi:

- Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig
- Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau.

Bwriad y ddogfen yma yw nodi rhai o bethau pwysicaf mae Cyngor Gwynedd wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn Ebrill 2017 i Fawrth 2018 ym maes cydraddoldeb.

Rydym hefyd wedi penderfynu ychwanegu 5ed Amcan sef:

- Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd angen gwybodaeth mewn fformatau gwahanol

Penderfynwyd ychwanegu hwn oherwydd rydym yn sylweddoli nad oes gennym ddigon o wybodaeth ynglŷn â pham fod y nifer o geisiadau am ddogfennau ar fformatau gwahanol e.e. Hawdd-ei-ddarllen, Iaith Arwyddion Prydeinig ayb, yn isel. Ydi hynny oherwydd nad oes angen am y fformatau, oherwydd diffyg gwybodaeth neu ryw reswm arall? Y bwriad yw ymgysylltu hefo mudiadau perthnasol i ganfod y gofyn ac unrhyw rwystrau.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys atodiad sy'n rhoi manylion cyflogaeth.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Dim i'w nodi

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig wedi ei gynnwys

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**i) Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

**ii) Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad blynyddol yn adlewyrchu cynnydd a rhoi trosolwg yn y maes pwysig yma. Mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi gwreiddio ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor ac mae hyn i'w groesawu o safbwynt priodoldeb.



# Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb

## 2017/18

www.gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Pwrpas yr Adroddiad

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nododd y Cyngor y pedwar amcan y mae am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion wedi eu dewis ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth fewnol, llais a chyfranogiad aelodau o'r cyhoedd a data ar nodweddion cydraddoldeb. Yr amcanion ydi:

- Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig
- Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau.

Bwriad y ddogfen yma yw nodi rhai o bethau pwysicaf mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn Ebrill 2017 i Fawrth 2018 ym maes cydraddoldeb er mwyn sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael sylw dyledus ac yn treiddio'n naturiol i holl waith y Cyngor.

# Cynllun Gweithredu

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-200

**Amcan 1**

**Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion Cydraddoldeb**



| **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?** | **Beth yw'r amserlen?** |
|---|---|
| 1.1 Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb. Rhannu'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp drwy'r Cyngor. | 2016-17 |
| 1.2 Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb. (Ystyriaeth bellach i'w roi i ganfod y cyfrwng gorau) | Parhaus |
| 1.3 Cryfhau'r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer da er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o'r budd sy'n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â'r ddyletswydd i wneud hynny. | 2016-17 |

**Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2017-18?**

Cychwynnwyd Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn ystod y cyfnod yma gyda rhyw 12 o bobl yn mynychu'r cyfarfod cyntaf. Byddwn yn gweithio i gael mwy o aelodau i ymuno dros weddill cyfnod y Cynllun. Mae rhestr o ryw 150 o fudiadau sy'n gweithio ym maes nodweddion cydraddoldeb ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ar gyfer ymgysylltu mwy eang (1.1). Dylai hyn wella ein hasesiadau effaith cydraddoldeb a sicrhau fod ein polisïau a gweithdrefnau yn fwy addas.

Rhoddwyd linc i'r ymarferiadau casglu barn sydd ar gael ar wefan y Cyngor er mwyn i'r wybodaeth gael ei ddefnyddio gan yr Adrannau i gyd (1.2).

Mae'r gwaith o addasu'r Llawlyfr Ymgysylltu wedi ei gwblhau er mwyn atgoffa pobl o'u dyletswydd tuag at gydraddoldeb (1.3).

**Amcan 2**

**Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb**



| | |
|---|---|
| **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?** | **Beth yw'r amserlen?** |
| 2.1 Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. | Parhaus |
| 2.2 Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith. | Parhaus |

**Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2017-18?**

Mae'r e-fodiwl cydraddoldeb ar gael ar wefan y Cyngor (2.1).

Mae'r taflenni asesu effaith wedi eu diwygio ac ar gael ar y fewnrwyd. Mae taflen sy'n rhoi canllawiau mwy cynhwysfawr wedi ei greu a'i roi gyda hwy er mwyn i'r adnodd fod ar gael i bawb (2.1)

Rhoddwyd gwahanol fathau o wybodaeth ar fewnrwyd y Cyngor, e.e. Cyfarfodydd Cyfarfod Hygyrch a Dulliau Amrywiol o Gyfathrebu er mwyn i staff y Cyngor fod yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda chymorth y Grŵp Craidd Cydraddoldeb (2.1).

Bydd negeseuon o gofnodion y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn cael eu rhoi ar y fewnrwyd (2.2) fel eu bod ar gael i bawb.

Dylai'r gwaith yma gryfhau'r asesiadau effaith cydraddoldeb sy'n cael eu paratoi wrth newid gwasanaethau.

**Amcan 3**

**Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.**



| | |
|---|---|
| **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?** | **Beth yw'r amserlen?** |
| 3.1 Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol | 2016/17 – 2017-18 |
| 3.2 Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau | 2016/17 – 2017-18 |
| 3.3 Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleoedd i gynrychioli fel cynghorydd lleol | 2016/17 – 2017-18 |
| **Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2017-18?** | |
| Cwblhawyd y gwaith yma yn 2016-17 wrth baratoi am etholiadau llywodraeth leol Mai 2017. Mae'r Cyngor yn derbyn na lwyddwyd i greu Cyngor mwy amrywiol yn sgil y gwaith. Mae denu pobl o gefndiroedd gwahanol, yn arbennig merched, pobl ifanc a phobl anabl, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac felly mae'r Cyngor yn dal ati i edrych am ffyrdd i wneud hynny. Rydym yn ymwybodol fod angen cyfuniad o wahanol ymyraethau er mwyn dylanwadu ar y sefyllfa, a bod posibilrwydd i ffrwyth y gwaith beidio dangos am rhai blynyddoedd. Yn ystod 2017-18 sefydlwyd is-grŵp o aelodau i adeiladu ar y gwaith a fu'n digwydd eisoes. | |

**Amcan 4**

**Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau**



| | |
|---|---|
| **Beth mae'r Cyngor am ei wneud yn ystod 2016-20?** | **Beth yw'r amserlen?** |

| | |
|---|---|
| 4.1 Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb | Cychwyn ym Mehefin 2016 |
| 4.2 Cwblhau awdit tâl | 2016/17 – 2019/20. |
| 4.3 Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall | 2016/17 – 2019/20 |
| **Beth ddigwyddodd yn ystod 2017-18?** | |
| Cafodd yr awdit tâl diweddaraf ei gwblhau yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd yr awdit yn canolbwyntio ar ystyried os oes yna unrhyw wahaniaethau mewn cyflogau sylfaenol, a hynny yn benodol rhwng dynion a merched sydd yn cyflawni'r un math o waith. Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oes yna fylchau cyflog cyfartal yn y gweithlu (4.2).<br>Wrth gynnal yr archwiliad nesaf bydd y Cyngor ystyried ehangu'r briff, fel bod modd asesu os oes yna wahaniaethau cyflog yn erbyn rhai o'r nodweddion cydraddoldeb eraill hefyd e.e. oedran. Byddwn hefyd yn y cyfamser yn cynllunio sut i gyfarch y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (gender pay gap) o fewn y gweithlu (4.3).<br>Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i ymdrechu i lenwi'r gwagle sydd yna yn y wybodaeth sydd gennym ar nodweddion cydraddoldeb ein haelodau staff. Mae'n rhydd i bob aelod staff unigol benderfynu os yw am ymateb i holiaduron sy'n gofyn am yr wybodaeth honno. Yn amlwg fel cyflogwr rydym angen cymaint o wybodaeth â phosib fel bod modd i ni wedyn ymateb i'r sefyllfa a dileu unrhyw wahaniaethu (4.1). Penderfynwyd ail gynllunio'r ffurflen oherwydd nad oedd y cwestiynau yn gyson ac i esbonio'n rhesymau y byddem yn annog pobl i'w lenwi yn glir. | |

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i Awdurdod Lleol i newid ei Gynllun os oes rheswm digonol a thystiolaeth dros wneud hynny. Mae Cyngor

Gwynedd wedi penderfynu fod angen ychwanegu amcan i'n cynllun cydraddoldeb fel a ganlyn:




| | |
|---|---|
| **Amcan 5** | **Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd angen dogfennau mewn fformat gwahanol** |
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Rydym wedi sylweddoli nad yw'r Cyngor yn gwneud digon i ddiwallu anghenion yr unigolion yma. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pobl anabl, pobl du a lleiafrif ethnig, pobl hŷn a phobl ifanc |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Ymgysylltu hefo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a grwpiau eraill perthnasol i adnabod yr angen mwyaf<br>• Gweithredu ar yr hyn a ddywedir, os yn bosib |
| Beth yw'r amserlen? | 2018-20 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Gwell ymwybyddiaeth o anghenion pobl Gwynedd<br>• Gweithredu ar ganlyniadau'r ymgysylltiad |
| Tystiolaeth dros wneud hyn | Mae'n ymddangos fod y galw am fformatau amgen yn isel yn gyffredinol trwy'r Cyngor, heb law am rai achosion penodol (e.e. mae dros 1,000 o gopïau o fformat awdio Newyddion Gwynedd yn cael eu hanfon allan bob tro). Nid yw'n bosib dweud, ar hyn o bryd, os yw'r galw isel presennol oherwydd diffyg angen, neu oes yna rwystrau e.e. ddiffyg gwybodaeth. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau ein bod yn darparu yn addas ar gyfer unigolion. |

Nid yw’r Cyngor wedi gweithio ar yr amcanion hyn yn unig ym maes cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn 2016-17.  Mae’r rhan fwyaf o’r gwaith yn y maes yn rhan annatod o waith dydd i ddydd swyddogion fel y gwelir o’r gwaith isod.  Mae nifer o’r rhain wedi eu gwneud ar y cyd gyda phartneriaid sector gyhoeddus neu trydydd sector.



Mae’r Tîm Chwaraeon am Oes wedi cynnal Ras Ieuenctid yr Wyddfa yn 2017 am y tro cyntaf. Roedd dros 230 o blant wedi cystadlu mewn 5 categori oedran o dan 10 i dan 18, hefo medal ar gael i’r 3 merch a 3 bachgen cyntaf ym mhob categori.  Cafwyd y wefr o gychwyn o linell gychwyn Ras yr Wyddfa, 5 munud ar ôl i’r ras yna adael.

Dros 4 diwrnod ym mis Mehefin cynhaliwyd Cyfres Cyfeiriannu Ysgolion Cynradd Gwynedd mewn 3 lleoliad trawiadol ar draws y sir.  Eto wedi ei gynnal gan y Tîm Chwaraeon am Oes, cymerodd dros 700 o blant ran yn y digwyddiad.  Mae cyfeiriannu yn weithgaredd awyr agored cyffrous a heriol. Y nod yw llywio rhwng pwyntiau rheoli sydd wedi eu marcio ar fap cyfeiriannu a chwblhau'r cwrs yn yr amser cyflymaf posib.

Hefyd cychwynnwyd grŵp cerdded hefo pram ym Maesgeirchen er mwyn gwella iechyd rhieni.


Mae Clwb Golff Nefyn a’r Ardal wedi cael arian gan Gist Gwynedd i ddatblygu tîm newydd genethod oedran 7-11oed.



Dechreuwyd clwb seiclo hygyrch newydd o’r enw Pŵer Seiclo ym Mhlas Menai,.  Mae 15 o feiciau addasol ar gael, sy’n amrywio o feiciau ochr wrth ochr, beiciau tandem, treciau a chludwr cadair olwyn.  Bydd y clwb, sy’n cyfarfod pob yn ail wythnos, yn defnyddio Llwybr Beicio Lôn Las Menai sy'n rhedeg o Gaernarfon i Felinheli gyda lle i fynd ymhellach.

Bu Cyngor Gwynedd yn holi barn y cyhoedd am ei ddarpariaeth chwaraeon anabledd ar draws y sir. Y bwriad oedd edrych ar sut mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol ac i adnabod a cheisio datrys unrhyw rwystrau sy’n eu hwynebu.  Rhaid sicrhau fod mynediad i chwaraeon ar gael i bawb sy’n dymuno cymryd rhan er mwyn datblygu sgiliau, ennill hyder a chadw’n iach

Mae dros 600 o ddefnyddwyr anabl wedi cofrestru gyda chlybiau chwaraeon yng Ngwynedd.  Mae’r sir yn cynnal mwy o sesiynau fel Boccia a ‘Therapi Adlam’ na’r un sir arall yng Nghymru.



Cynhaliwyd yr ail Dwrnamaint Boccia ar gyfer pobl sy'n byw gydag amhariadau a chyflyrau iechyd cronig yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog.  Diolch i’r Cynghorydd John Hughes a’i wraig am ariannu’r digwyddiad a rhoi tlws er cof am ei fab, Wil Hughes.  Mae Boccia yn debyg i ‘boules’, yn cael ei chwarae gyda pheli lledr meddal ac fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Gall chwaraewyr daflu, cicio neu ddefnyddio ramp i gynnig pêl ar y llys gyda'r nod o fynd yn agosach at bêl 'jack'. Roedd 32 o dimau'n cystadlu am y teitl Tlws Coffa Will Pent yn cynnwys cleientiaid o brosiectau DementiaGo a Chynllun Cyfeirio i Ymarfer yn ogystal â'r Sefydliad MS, Clwb Strôc leol a grŵp Cymorth Parkinson, Antur Waunfawr, Clwb Boccia Abergele a Chartref Nyrsio Pines.

Mae rhaglen wythnosol DementiaGo yn cael ei rhedeg mewn pump o ganolfannau hamdden y Cyngor.  Mae’n darparu dosbarthiadau ymarferion sy'n helpu i wella stamina, cryfder, cydbwysedd a chydsymud. Mae cyfle hefyd i rheini sy’n mynychu i gymryd rhan mewn gemau fel Boccia a thennis bwrdd, ac yn bwysicaf oll yw bod pob dosbarth yn gorffen gyda phaned a sgwrs.




Gall pobl sy’n cael diagnosis o ddementia golli hyder a rhoi'r gorau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent wedi eu mwynhau unwaith, gall hyn arwain at unigedd ac unigrwydd. Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i ofalwyr sydd yn ymdrechu i ddygymod gyda’r sefyllfa a’r straen. Un digwyddiad arbennig yn ystod yr haf oedd prynhawn llawn hwyl, dawnsio a chwerthin gyda’r bersonoliaeth teledu, Russell Grant a fu’n cymryd rhan yn rhaglen BBC Strictly Come Dancing.

Mae’r Cyngor cefnogi nifer o wahanol ddyddiau, wythnosau a misoedd codi ymwybyddiaeth genedlaethol e.e. Wythnos Genedlaethol Codi Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Mis Hanes LHDT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Trawsryweddol).  Fel enghraifft, ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched (8 Mawrth) cyhoeddodd y Cyngor fideo i ddathlu ac i amlygu

cyfraniad merched Gwynedd i'r sir, i Gymru a thu hwnt.  Gwyliodd dros 14 mil o bobl y fideo.



Pen Llŷn oedd yr ardal gyntaf yng Nghymru i weithredu cynllun arloesol i gael mamau, a merched yn gyffredinol, i ddysgu am y byd digidol.  Diben elusen #Techmums ydi rhoi'r sgiliau a'r hyder i famau a merched sydd wedi mynd allan o'r byd gwaith, a'u galluogi i ail-afael mewn gwaith eto gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wneud hynny, boed mewn swyddfa neu yn eu cartrefi.

Ers mis Tachwedd 2016, mae Canolfan Gerdd William Mathias wedi bod yn cynnal sesiynau cerddorol ar ran Uned Gelfyddydol Gymunedol Cyngor Gwynedd gyda thrigolion hŷn Gellilydan ac Awel y Coleg, Y Bala dan arweiniad y cerddor Nia Davies Williams.  Prif amcan y cynllun yw taclo unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith y boblogaeth hŷn yng Ngwynedd. Gwahoddwyd plant o'r ysgolion cynradd lleol i gymryd rhan mewn sesiynau Camau Cerdd gyda Marie-Claire Howorth cyn ymuno i gyd-ganu a mwynhau gweithgareddau cerddorol gyda'r bobl hŷn. Mae'r sesiynau wedi helpu dod a phobl at ei gilydd i hel atgofion a mwynhau cerddoriaeth, yn ogystal â chodi hyder a chynnig cyfle i gyfarfod pobl newydd.  O fis Hydref 2017 ymlaen bu'n bosib i bobl ardaloedd Bethesda a Deiniolen fanteisio ar y cynllun.




Mae'r ffordd y mae oedolion yn cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd wedi newid. Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn awr ar gael ar lefel mwy lleol, gyda thimau wedi eu lleoli yn Llŷn, Caernarfon, Bangor, Eifionydd / gogledd Meirionnydd a de Meirionnydd.  Mae'r pum tîm newydd yn cymryd lle'r hen Dîm Cynghori ac Asesu Oedolion a Thimau Ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.  Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn, ynghyd a'u teuluoedd, yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Bydd yr ardaloedd llai hefyd yn golygu y bydd yn haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y cymunedau lleol, fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.

Mae'r tîm Opus, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, trwy Lywodraeth Cymru, yn mynd ati i helpu pobl 25 oed neu hŷn sydd wedi bod yn

ddi-waith ers peth amser yn ôl i waith cyflogedig.  Maent yn arbennig yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n profi rhwystrau ychwanegol e.e. pobl anabl neu bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf.

# Gwybodaeth bellach

## Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion swyddogol am faterion cydraddoldeb ac ni ddaeth unrhyw gwynion answyddogol i sylw'r Swyddog Cydraddoldeb.  Daeth un cwyn anffurfiol i ben oedd wedi ei dderbyn yn ystod 2016-17.  Adnabuwyd nad oedd yn fater cydraddoldeb

## Gwybodaeth Cydraddoldeb

Gweler atodiad 2 am y ffigyrau monitro staff Cyngor Gwynedd

Fel sy'n cael ei nodi yn Amcan 4 mae'r Cyngor wedi adnabod fod angen gwella ei drefn monitro cydraddoldeb staff y Cyngor.  Mae gwaith wedi cychwyn ar ddiwygio'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn a bydd y broses wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2018-19.

# Gwybodaeth Cyflogaeth 2017-18

Mae gan y Cyngor ddyletswydd, yn ôl Cynllun Cydraddoldeb 2010, i ddarparu gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Dyma'r wybodaeth am 2017-18.

## 1. Manylion y gweithlu yn gyffredinol

Mae 42.2% o staff y Cyngor wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb dewisol, ac mae'r ffigyrau isod wedi eu selio ar y rhain os nad ydym yn nodi'n wahanol. Mae'r wybodaeth am y nodweddion cydraddoldeb fel â ganlyn:

### A ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Nag Ydw | 4.4% | 1.8% |
| Ydw | 94.0% | 39.6% |
| Nid wyf eisiau dweud | 1.7% | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

### Cenedligrwydd :

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Cymro / Cymraes | 91.9% | 38.8% |
| Sais / Saesneg | 4.8% | 2.0% |
| Albanwr / Albanes | 0.2% | 0.1% |
| Gwyddel / Gwyddeles | 0.1% | 0.0% |
| Arall | 2.2% | 0.9% |
| Nid wyf eisiau dweud | 0.8% | 0.3% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

### Ethnigrwydd :

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Gwyn | 98.1% | 41.4% |
| Arall | 0.3% | 0.1% |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 0.1% | 0.0% |
| Cymysg - Gwyn Asiaidd | 0.2% | 0.1% |
| Du - Affricanaidd | 0.0% | 0.0% |
| Du - Caribïaidd | 0.0% | 0.0% |
| Asiaidd - Arall | 0.0% | 0.0% |
| Pacistanaidd | 0.1% | 0.0% |
| Indiaidd | 0.0% | 0.0% |
| Nid wyf eisiau dweud | 1.1% | 0.5% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

**Rhyw :**

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Dynes | 69.9% | 29.5% |
| Dyn | 29.6% | 12.5% |
| Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | 0.04% | 0.02% |
| Nid wyf eisiau dweud | 0.5% | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

**Crefydd :**

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Mae gen i grefydd neu gred | 59.3% | 25.0% |
| Nid oes gennyf grefydd na chred | 30.2% | 12.8% |
| Nid wyf eisiau dweud | 10.5% | 4.4% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol :**

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0.0% | 0.0% |
| Heterorywiol neu "strêt" | 95.9% | 40.5% |
| Lesbiaidd neu Hoyw | 0.4% | 0.2% |
| Arall | 0.3% | 0.1% |
| Nid wyf eisiau dweud | 3.4% | 1.4% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

**Anabledd :**

| | % o'r sampl | % o'r gweithlu |
|---|---|---|
| Nid wyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 93.4% | 39.4% |
| Rwyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 3.6% | 1.5% |
| Nid wyf eisiau dweud | 3.0% | 1.3% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **42.2%** |

**Oedran :** Mae'r ffigyrau yma yn ymwneud â'r gweithlu i gyd gan fod gan y Cyngor ddyddiad geni bob gweithiwr. Maent yn cynnwys gweithwyr achlysurol fel ag yr oedd yn ymddangos ar 31 Mawrth eleni.

| Band Oedran | % o'r gweithlu |
|---|---|
| 16-19 | 1.8% |
| 20-24 | 5.7% |
| 25-29 | 8.8% |
| 30-34 | 9.3% |
| 35-39 | 11.3% |
| 40-44 | 11.7% |
| 45-49 | 14.6% |
| 50-54 | 13.9% |
| 55-59 | 12.4% |
| 60-64 | 7.1% |
| 65-69 | 2.1% |
| 70-74 | 0.8% |
| 75+ | 0.4% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** |

## 2. Natur Swyddi

Dim ond nodwedd cydraddoldeb rhyw sydd angen ei nodi yma.

### a) Y nifer a gyflogir yn ôl swydd

Dadansoddiad ddim ar gael

### b) Nifer a gyflogir yn ôl graddfa cyflog

| | Dyn | Dynes | 'Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | Nid wyf eisiau dweud | % o'r sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| Prentis | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Gweithwyr Sesiynol | 0.2% | 0.3% | 0.0% | 0.0% | 0.6% |
| Graddfa Sylfaenol (GS) | 10.5% | 39.2% | 0.04% | 0.3% | 50.0% |
| Swyddogion (S) | 7.9% | 9.7% | 0.0% | 0.0% | 17.6% |
| Uwch Swyddogion (PS) | 6.8% | 7.4% | 0.0% | 0.1% | 14.4% |
| Uwch Reolwyr (UR) | 0.5% | 0.2% | 0.0% | 0.0% | 0.7% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion | 0.1% | 0.1% | 0.0% | 0.0% | 0.2% |
| Athrawon (Cynnwys heb gymhwyso a llanw) | 2.5% | 9.6% | 0.0% | 0.0% | 12.2% |
| Prifathrawon / Dirprwy Brifathrawon | 0.9% | 2.8% | 0.0% | 0.0% | 3.7% |
| Soulbury | 0.1% | 0.5% | 0.0% | 0.0% | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **29.6%** | **69.9%** | **0.04%** | **0.5%** | **100.0%** |

## c) Nifer a gyflogir fesul amrediad cyflog

| Band Cyflog - Cyfwerth Amser Llawn | Dyn | Dynes | 'Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | Nid wyf eisiau dweud | % o'r sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| £10,000 - £19,999 | 11.2% | 42.6% | 0.04% | 0.3% | 54.2% |
| £20,000 - £29,999 | 8.2% | 10.9% | 0.00% | 0.0% | 19.1% |
| £30,000 - £39,999 | 5.9% | 7.4% | 0.00% | 0.1% | 13.3% |
| £40,000 - £49,999 | 3.0% | 6.7% | 0.00% | 0.1% | 9.8% |
| £50,000 - £59,999 | 0.8% | 1.8% | 0.00% | 0.0% | 2.6% |
| £60,000 - £69,999 | 0.3% | 0.2% | 0.00% | 0.0% | 0.5% |
| £70,000 - £79,999 | 0.1% | 0.1% | 0.00% | 0.0% | 0.3% |
| £80,000+ | 0.1% | 0.0% | 0.00% | 0.0% | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **29.6%** | **69.9%** | **0.04%** | **0.5%** | **100.0%** |

## d) Nifer a gyflogir yn ôl math o gontract

| | Dyn | Dynes | 'Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | Nid wyf eisiau dweud | % o'r sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Penodol | 1.1% | 3.6% | 0.0% | 0.0% | 4.7% |
| Achlysurol | 0.8% | 3.5% | 0.0% | 0.1% | 4.5% |
| Parhaol | 27.7% | 62.7% | 0.04% | 0.4% | 90.8% |
| **Cyfanswm** | **29.6%** | **69.9%** | **0.04%** | **0.5%** | **100.0%** |

## e) Nifer a gyflogir yn ôl patrwm gwaith

| | Dyn | Dynes | 'Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | Nid wyf eisiau dweud | % o'r sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawn Amser | 25.5% | 36.6% | 0.00% | 0.3% | 62.5% |
| Rhan Amser | 4.1% | 33.2% | 0.04% | 0.2% | 37.5% |
| **Cyfanswm** | **29.6%** | **69.9%** | **0.04%** | **0.5%** | **100.0%** |

## 3. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

*Nodyn : ymgeiswyr sydd wedi ceisio am swydd ar lein yn unig ydi'r rhain - ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi gwneud cais ar bapur. Mae'n cynnwys pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod yn ogystal ag ymgeiswyr allanol. Gall person fod wedi ymgeisio am fwy nac un swydd ac felly yn ymddangos dwywaith yn y data.*

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Dyn | 1,209 |
| Dynes | 1,862 |
| Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | * |
| Nid wyf eisiau dweud | 15 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Hil | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 3,015 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | * |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 9 |
| Gwyn Asiaidd | 17 |
| Du – Affricanaidd | 6 |
| Du – Caribiaidd | * |
| Asiaidd – Arall | 9 |
| Pacistanaidd | * |
| Bangladeshaidd | * |
| Tsieineaidd | 5 |
| Indiaidd | * |
| Arall | 5 |
| Nid wyf eisiau dweud | 11 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cenedligrwydd | Nifer |
|---|---|
| Cymro / Cymraes | 2,670 |
| Sais / Saesneg | 270 |
| Albanwr / Albanes | 7 |
| Gwyddel / Gwyddeles | 18 |
| Arall | 113 |
| Nid wyf eisiau dweud | 9 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Crefydd | Nifer |
|---|---|
| Mae gen i grefydd neu gred | 1,067 |
| Nid oes gennyf grefydd na chred | 1,751 |
| Nid wyf eisiau dweud | 269 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer |
|---|---|
| Deurywiol | 18 |
| Heterorywiol neu "strêt" | 2,938 |
| Lesbiaidd neu Hoyw | 35 |
| Arall | * |
| Nid wyf eisiau dweud | 92 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

**4. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am swydd wahanol o fewn yr awdurdod**

Rhan o'r ffigyrau uchod.

**5. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer fu'n llwyddiannus**

Nid ydi'r data am y rhai na fu'n llwyddiannus ar gael.

**6. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus**

Bu i 2,771 aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, boed yn hyfforddiant traddodiadol neu yn fodiwl e-ddysgu. O'r rhain 1,279 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb.

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Dyn | 409 |
| Dynes | 864 |
| Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | 0 |
| Nid wyf eisiau dweud | 6 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Hil | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 1,255 |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | * |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | * |
| Pacistanaidd | * |
| Arall | 3 |
| Nid wyf eisiau dweud | 16 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cenedligrwydd | Nifer |
|---|---|
| Cymro / Cymraes | 1,176 |
| Sais / Saesneg | 61 |
| Albanwr / Albanes | * |
| Gwyddel / Gwyddeles | * |
| Arall | 28 |
| Nid wyf eisiau dweud | 10 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Crefydd | Nifer |
|---|---|
| Mae gen i grefydd neu gred | 696 |
| Nid oes gennyf grefydd na chred | 421 |
| Nid wyf eisiau dweud | 162 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer |
|---|---|
| Deurywiol | * |
| Heterorywiol neu "strêt" | 1,225 |
| Lesbiaidd neu Hoyw | 9 |
| Arall | 2 |
| Nid wyf eisiau dweud | 42 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Nid wyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 1,195 |
| Rwyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 47 |
| Nid wyf eisiau dweud | 37 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

## 7. Aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cwyn yn eu herbyn

Mae 22 unigolyn wedi bod yn rhan o weithdrefn gwyno. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion. O edrych ar y ffigyrau mae'n bosib dweud nad oes unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg.

## 8. Aelodau staff sydd wedi bod drwy'r weithdrefn ddisgyblaethol

Mae 51 achos o ddisgyblu wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion. O edrych ar y ffigyrau mae'n bosib dweud nad oes unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg.

## 9. Aelodau staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor

Bu i 596 unigolyn adael cyflogaeth y Cyngor yn ystod 2017/18. O'r rhain roedd 200 ohonynt wedi ateb yr holiadur cydraddoldeb.

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Dyn | 54 |
| Dynes | 146 |
| Rydw i'n meddwl am fy hunan mewn ffordd arall | 0 |
| Nid wyf eisiau dweud | 0 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Hil | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 200 |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd | 0 |
| Cymysg – Gwyn Asiaidd | 0 |
| Du – Affricanaidd | 0 |
| Asiaidd – Arall | 0 |
| Pacistanaidd | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 |
| Tsieineaidd | 0 |
| Indiaidd | 0 |
| Arall | 0 |
| Nid wyf eisiau dweud | 0 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cenedligrwydd | Nifer |
|---|---|
| Cymro / Cymraes | 184 |
| Sais / Saesneg | 9 |
| Albanwr / Albanes | * |
| Gwyddel / Gwyddeles | 0 |
| Arall | 5 |
| Nid wyf eisiau dweud | * |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Crefydd | Nifer |
|---|---|
| Mae gen i grefydd neu gred | 128 |
| Nid oes gennyf grefydd na chred | 50 |
| Nid wyf eisiau dweud | 22 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer |
|---|---|
| Deurywiol | 0 |
| Heterorywiol neu "strêt" | 192 |
| Lesbiaidd neu Hoyw | * |
| Arall | * |
| Nid wyf eisiau dweud | 5 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

| Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Nid wyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 187 |
| Rwyf yn gweld fy hunan fel person anabl | 9 |
| Nid wyf eisiau dweud | 4 |

*Nodyn : mae * yn golygu bod y ffigwr yn rhy isel i'w ddatgelu*

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB
# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

**1) AWDUR (ON) YR ASESIAD**

Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb

**2) PARTNERIAID**

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl â'r nodweddion yma

**3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD**

8 Hydref 2015
Fersiwn 2018 – 11 Mehefin 2018

**4) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER**

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y bwriad yw gwneud hynny drwy bennu amcanion fydd yn sicrhau fod llais pobl hefo'r nodweddion hynny'n cael ystyriaeth deg. Pwysig hefyd yw sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio trwy holl waith y Cyngor.

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw adrodd ar unrhyw gynnydd.

**5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**
Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda phobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth lunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth o ymgysylltiadau blaenorol wedi ei ddefnyddio hefyd.

Y bwriad rŵan ydi cael cyfnod o ymgysylltu gan hysbysebu'n eang a chysylltu gyda grwpiau penodol.

**6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**
Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae ein tystiolaeth wedi dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys

- Ymgysylltu – gweler uchod
- Gwybodaeth fewnol y Cyngor
- Data ar nodweddion cydraddoldeb o nifer o ffynonellau

Rydym yn ymhelaethu ar y data yma yn y Cynllun.

**7) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**
Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi nodi bylchau mewn tystiolaeth yn y Cynllun ac wedi adnabod dulliau o'u cywiro e.e. casglu gwybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb y gweithlu.

Nid ydym yn teimlo fod gennym ddigon o wybodaeth am yr angen am ddogfennau mewn fformatau gwahanol e.e. Hawdd ei Ddarllen neu Iaith Arwyddion Prydeinig.  Nid oes llawer o alw wedi bod am ffynonellau amgen ond nid ydym yn sicr os yw hyn oherwydd bod dim galw gwirioneddol neu oherwydd bod pobl ddim yn ymwybodol o'u hawliau yn y mater yma.  Rydym felly wedi penderfynu cynnwys Amcan ychwanegol yn ein cynllun o hyn allan er mwyn canfod yr angen gwirioneddol a gweithredu ar y wybodaeth rydym yn derbyn.

**8) PERTHNASEDD AC EFFAITH**
Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**8a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |

**8b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Bydd Amcan 5 yn bwysig i rai pobl hefo'r nodwedd yma oherwydd ei fod yn edrych ar anghenion pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. |
| **Anabledd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Bydd Amcan 5 yn bwysig i bobl Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig neu sydd angen fersiynau gwahanol o ddogfennau e.e. Hawdd ei ddarllen, print bras neu awdio. |
| **Rhyw** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein ymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Nid oes effaith penodol ar yr iaith Gymraeg ond wrth gwrs bydd yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor |
| **Oedran** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Gall Amcan 5 gael effaith ar bobl hŷn oherwydd bod anghenion pobl yn newid wrth fynd yn hŷn. Bydd yn berthnasol yn arbennig i bobl hŷn sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Mae'n bwysig hefyd ystyried anghenion pobl ifanc a chreu gwybodaeth addas. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| **sifil** | | cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisïau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi. Ni fydd Amcan 5 yn cael effaith uniongyrchol ar bobl hefo'r nodwedd yma. |

## 9) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Disgwylir i'r cynllun a'r amcanion gael effaith bositif o safbwynt cydraddoldeb.<br><br>Disgwylir i Amcan 5 gael effaith bositif hefyd, yn arbennig ar bobl Fyddar, pobl anabl a phobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf yn ogystal â phobl hŷn a phobl ifanc. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Monitro ac adolygu, gweler isod. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac oes |

## 10) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er bod yr asesiad uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gwblhau yn flynyddol i nodi'r gwaith fydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac i adnabod unrhyw fylchau.

Mae'n dderbyniol i newid y Cynllun ar unrhyw adeg, fel rydym wedi ei wneud yn yr Adroddiad Blynyddol presennol

## 11) PENDERFYNU

Cyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo'r cynnwys, ac er gwybodaeth.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Medi 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwenllian Mair Williams** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679469** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 (Strartegaeth Iaith Sirol)** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet ar y fersiwn derfynol o'r Cynllun Hybu a'r Rhaglen Waith gychwynnol ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun Hybu a'r blaenoriaethau a nodir ynddi, a'u bod yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod mewn cynlluniau eraill megis Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant. Hefyd bod aelodau'r Cabinet yn fodlon gyda'r camau cychwynnol sydd wedi eu nodi ar gyfer gweithredu ar flaenoriaethau'r Cynllun Hybu

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Yn unol â gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein ardal.

3.2 Cynllun y Cyngor yw hwn, ac felly bydd gofyn i holl adrannau'r Cyngor gyfrannu tuag at y weledigaeth. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid allanol lle mae meysydd gwaith cyffredin er mwyn cael rhannu adnoddau ac arbenigedd wrth weithio ar wireddu'r amcanion.

3.3 Mae'r Cynllun Hybu hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wneir yng nghyswllt yr iaith yng Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn ac hefyd ymrwymiadau ehangach ym meysydd addysg a chynllunio.

3.4 Bu ymgynghori ar gynnwys y Cynllun drafft yn gynharach eleni, ac mae'r Cynllun Terfynol wedi ei ddiwygio yn sgil yr ymgynghori hwnnw, gan gymryd

rhai o’r materion a godwyd i ystyriaeth. Ceisiwyd rhoi mwy o bwyslais yn y Cynllun terfynol ar yr angen i edrych ar gefnogaeth i ddysgwyr ac hefyd i rôl technoleg.

3.5 Mae rhaglen waith gychwynnol wedi ei llunio sydd yn rhoi syniad o’r camau cyntaf y byddwn yn eu cymryd tuag at wireddu blaenoriaethau’r Cynllun. Mae’r camau hyn yn seiliedig ar drafodaethau gydag adrannau perthnasol, a phartneriaid, er mwyn adnabod ffrydiau gwaith sydd yn ateb y blaenoriaethau, ac hefyd cyfleoedd ar gyfer cydweithio neu brosiectau o’r newydd. Roedd rhai partneriaid allanol wedi nodi cyfleoedd cydweithio penodol yn eu hymateb i’r ymgynghoriad, a chaiff y rheiny eu hadlewrychu yn y Cynllun a’r Rhalgen Waith.

3.6 Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r gwahanol feysydd a phartneriaid, er mwyn cytuno ar fanylion cydweithio ac ar amserlenni a dulliau monitro. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith, fydd yn cael ei diweddaru wrth i’r gwaith ddatblygu.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Gofynnir i’r Cabinet gymeradwyo’r Cynllun Hybu terfynol a’r Rhaglen Waith atodedig er mwyn ei chyflwyno i’r Cyngor llawn ar y 4ydd o Hydref.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Cyflwynwyd adroddiad ar ymatebion yr ymgynghoriad i’r Pwyllgor Iaith ym mis Gorffennaf a chafwyd trafodaeth am rai o’r themâu a godwyd ac y dylid eu hystyried wrth ddatblygu’r Cynllun ymhellach.

5.2 Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro:

“*Mae’r strategaeth yn cyfarch y gofyn statudol sydd ar y Cyngor o dan Safon 145 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i gynhyrchu strategaeth 5 mlynedd ynglŷn â hybu’r Gymraeg. Rwyf yn nodi’r camau yn rhaglen waith er mwyn gwireddu’r flaenoriaeth hyn, a bod angen cadw mewn cof y cyfrifoldeb statudol ar ôl 5 mlynedd o dan Safon 146 i asesu i ba raddau mae’r mae’r Cyngor wedi dilyn y strategaeth.*”

Swyddog Cyllid:

“*Mae’r awdur wedi cadarnhau na ddylai fod yna unrhyw gostau ychwanegol i’r Cyngor fel canlyniad i fabwysiadu’r Cynllun Hybu’r Gymraeg sydd gerbron. Nid oes gennyf sylwadau pellach, felly, o safbwynt priodoldeb ariannol.*”

**Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023**

**– terfynol**

**Cynnwys**


1. **Cyflwyniad**
2. **Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau**
3. **Beth hoffem ni ei weld?**
   **3.1 Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu**
   **3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu**
   **3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth**
   **3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned**
   **3.5 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg –gosod y seiliau cywir**
4. **Gweithredu'r Cynllun Hybu**

## 1. Cyflwyniad

Mae Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 44 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau. Rhoir lle amlwg i'r Gymraeg yng nghynlluniau strategol y Cyngor, ac mae Polisi Iaith y Cyngor hefyd yn nodi ein hymrwymiad drwy ddatgan y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.

Mae **Cynllun y Cyngor 2018-2023** yn nodi mai un o'i amcanion llesiant yw sicrhau bod holl drigolion Gwynedd yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Nid hon yw strategaeth iaith gyntaf y Cyngor, gan fod Strategaeth Iaith Gwynedd (fersiwn ddiweddaraf 2014-2018) wedi bod yn gosod y flaenoriaeth a'r sylfaen ar gyfer gwaith Hunaniaith, y fenter iaith sydd yn gweithredu fel rhan o Uned Iaith y Cyngor, ers rhai blynyddoedd. Mae'r strategaeth hon felly yn nodi'r cyfleoedd presennol ar gyfer hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd dyddiol yn y sir a chan adlewyrchu ymrwymiadau ehangach y Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, mewn sawl maes megis addysg, cynllunio a gwasanaethau cymdeithasol a gofal[1], a chan ategu'r blaenoriaethau a nodir yng **Nghynllun y Cyngor** a **Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn**.

Bydd y Strategaeth hefyd yn cynnig syniadau ar gyfer cyfraniad Gwynedd tuag at **Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050**, sydd yn gosod y nôd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Bydd gweithrediad a llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio rhwng nifer o bartneriaid, yn gyrff cyhoeddus ac yn grwpiau cymunedol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau amrywiol sydd yn wynebu'r Gymraeg ar draws y sir.

[1] Fframwaith strategol olynol Mwy na Geiriau.... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

## 2. Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau

### *2.1 Ystadegau allweddol*

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn rhai ardaloedd o Wynedd, gan gynnwys Waunfawr, Ogwen, Y Groeslon, Llanbedr, Corris/Mawddwy, a gwelwyd cynnydd yn ôl dros y trothwy 70% yn ward Clynnog,

Ond gwelwyd gostyngiad yn gyffredinol yn nifer y wardiau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, gyda 39 allan o 71 ward ar ôl yn ôl cyfrifiad 2011.

Gwelwyd y cwymp mwyaf yn y grŵp oedran 65 +, a'r cynnydd mwyaf ymysg y trigolion 'fengaf un, yn y grwpiau oedran 3-4 oed (70.9% i 73.0%) a 5-15 oed (91.8% i 92.3%), sydd yn awgrymu bod y gwasanaethau blynyddoedd cynnar a'r system addysg yn gwneud gwaith da o osod sylfeini cadarn i'n plant a phobl ifanc yn eu gallu a'r defnydd o'r Gymraeg.

### *2.2 Crynodeb o'r heriau*

Er mwyn i ni allu canfod cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu nifer y siaradwyr, mae angen i ni hefyd allu cydnabod yr heriau a'r rhwystrau sydd yn atal hynny. Mae angen i ni allu adnabod yr ardaloedd o'r sir, neu'r rhannau o fywyd, lle mae pobl yn defnyddio llai o'r iaith yn eu bywyd dyddiol, a deall pa ffactorau sydd yn gallu effeithio ar ddefnydd personol unigolyn o'r iaith.

Yn sicr ddigon, cael pobl i ddefnyddio'r sgiliau a'r gallu sydd ganddyn nhw i siarad Cymraeg, a hynny mewn cymaint â phosib o gyd-destunau, yw'r ffactor bwysig i ffyniant yr iaith yng Ngwynedd.

Er mwyn gallu annog hynny, mae angen ystyried effaith yr heriau, a sut y gallwn fynd i'r afael â nhw er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ar draws y sir ddefnyddio ac arddel yr iaith o ddydd i ddydd.

- **Heriau daearyddol:**

  Gwahaniaethau yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws y sir, a'r amrywiaeth swyddi/gwasanaethau sydd ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig yn golygu bod angen atebion ac ymyraethau gwahanol er mwyn gwarchod y Gymraeg.

- **Symudoledd a mudo**

  Pobl ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am waith a llai o deuluoedd yn symud i mewn i rai ardaloedd - rhai gwledig yn enwedig - oherwydd diffyg gwasanaethau. Nifer sydd yn symud i mewn i ardaloedd o ardaloedd eraill a thu hwnt i Wynedd yn creu newidiadau demograffig.

- **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:**

  Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant gan arwain at golli'r Gymraeg fel iaith y cartref

- **Colli nifer siaradwyr ar ôl 16 oed:**

  Dim dilyniant cadarn o ddefnydd wrth adael addysg a phobl ifanc yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd mewn i fyd gwaith a bywyd cymdeithasol fel oedolion.

- **Statws y Gymraeg fel iaith busnes:**

  Y Gymraeg ddim yn cael defnydd digon amlwg gan fusnesau

- **Cyfleoedd a chefnogaeth i ddysgwyr:**

  Nifer o newydd-ddyfodiad sydd ag awydd i ddysgu ond yn ei chael yn anodd oherwydd diffyg cyfleoedd amserol a hwylus.

- **Dylanwad technoleg:**

  Technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, ac yn enwedig felly pobl ifanc. Diffyg adnoddau a datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn golygu bod dylanwad y Saesneg yn cynyddu ar fywydau dydd i ddydd.

- **Hyder unigolion yn eu gallu a'u sgiliau:**

  Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd wrth gymdeithasu ac anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at ddiffyg hyder ac at lai o ddefnydd.

## 3. Beth hoffem ni ei weld?

Ein dymuniad yn y tymor hir yw gweld canran siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn dringo yn ôl at y ffigwr o 70%, a’r ganran yn cael ei chynnal uwchlaw hynny yn y cadarnleoedd.

Mae ein cyfundrefn addysg lwyddiannus eisoes yn golygu bod 92% o blant 5-15 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Yr her i ni yw cael y 92% yma i barhau i ddefnyddio’r Gymraeg.

Ein blaenoriaeth ar gyfer cyfnod cyntaf y cynllun hwn, yn arwain at y Cyfrifiad nesaf yn 2021, felly, fydd cynyddu’r cyfleoedd ar gyfer defnyddio’r Gymraeg, ar gyfer magu hyder unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ac hefyd edrych ar gyfleoedd fydd yn ein helpu i gadw pobl ifanc yn ein cymunedau.

Wrth weithio tuag at y cynyddu yn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, felly, dyma yr hoffem ei weld:

- Teuluoedd sydd yn gweld gwerth i’r iaith ac yn ei defnyddio fel iaith y cartref.
- Ysgolion a sefydliadau addysgol sydd yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus
- Plant a phobl ifanc sydd yn gweld gwerth i’r iaith fel sgil ar gyfer eu bywyd ac fel cyfrwng adloniant a chymdeithasu ac sydd yn ei defnyddio ym mhob rhan o’u bywyd
- Sefydliadau a chyrff sydd yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn gyson ac yn safonol
- Sector busnes sydd yn rhoi gwerth a statws i’r iaith ac sy’n deall bod y Gymraeg yn sgil ac yn adnodd wrth recriwtio
- Y Gymraeg yn gyfrwng iaith naturiol wrth ddatblygu a defnyddio technoleg
- Grwpiau cymunedol yn cael eu cefnogi i gynnal y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ac i sicrhau bod pobl o bob cefndir ieithyddol a chymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn gweithgarwch cymunedol.
- Y Gymraeg yn cael lle blaenllaw gan y Cyngor mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu’r iaith yn ein cymunedau.
- Trigolion sydd yn hyderus wrth ddefnyddio’r Gymraeg ac yn dangos agwedd gadarnhaol ac ewyllys da tuag ati.

Yn rhan nesaf y ddogfen, byddwn yn trafod rhai o’r pwyntiau uchod dan bum maes thematig, sydd hefyd yn cyd-fynd gyda’r blaenoriaethau a osodir yn **Strategaeth Llywodraeth Cymru**, **Cymraeg 2050**.

Bydd camau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth a’r newid yr hoffem ei weld dan y pum brif faes blaenoriaeth yn cael eu nodi mewn rhaglen waith, fydd yn atodiad i’r Cynllun Hybu hwn.

## 3.1 Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu

**Y weledigaeth...**

- Gwell cydweithio rhwng asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg yn cael eu monitro a'u cefnogi yn briodol.
- Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd i rieni a theuluoedd ddysgu Cymraeg er mwyn gallu defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant o aelwydydd lle caiff mwy nag un iaith ei siarad sydd yn gallu'r Gymraeg.

**Y darlun ystadegol..**

**Mae 90% o blant 3-4 oed Gwynedd sydd yn dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg.**

**Mae 63% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg pan mai dim ond un rhiant sydd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.**

**Yn fwy cadarnhaol fyth, mae 35% o blant sydd yn cael eu magu ar aelwydydd lle nad oes yr un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yn cael eu nodi fel siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiad 2011.**

**Beth sydd angen digwydd nesaf?**

Er mwyn i'r Gymraeg fod yn gyfrwng iaith naturiol ymysg teuluoedd, rhaid sicrhau bod patrymau iaith cadarnhaol yn cael eu gosod yn gynnar ym mywyd plant. Y flaenoriaeth yn y maes hwn felly fydd cydweithio gydag asiantaethau a phartneriaid ym maes **blynyddoedd cynnar** er mwyn sicrhau bod negeseuon cadarn a chyson yn cael eu rhannu gyda rhieni a gwarcheidwaid am werth yr iaith, nid yn unig i'r plant ond i'r teulu cyfan, ac hefyd bod digon o gyfleoedd ar gael sydd yn annog mwy o deuluoedd i ddysgu'r iaith ochr yn ochr â'u plant.

Rhaid sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu yn briodol ac felly bydd angen sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd yn cael eu rhannu yn effeithiol rhwng y sefydliadau a darparwyr hyn er mwyn cael y dylanwad a'r cyrhaeddiad gorau posib.

Mae angen sicrhau bod darparwyr gofal cyn oed ysgol yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gynnal cyfrwng iaith y gofal ac i gael y dylanwad gorau posib ar gaffaeliad iaith y plant ifanc yn eu gofal.

Mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae anffurfiol, fydd yn annog rhieni a gofalwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg efo'u plant, ac sydd yn leoliadau croesawgar a chefnogol, beth bynnag fo gallu ieithyddol rhywun, yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir.

Mae llu o ddarparwyr unigol a grwpiau annibynnol yn bodoli yn y sir hefyd, sydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol i rieni a phlant ifanc, megis sesiynau stori a chân a sesiynau nofio ac ymarfer corff.  Mae cyfle yma i fod yn dylanwadu ar y darparwyr hynny drwy gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant wedi ei deilwra yn arbennig ar eu cyfer  ar faterion megis sut i drosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg i rieni.  Mae Hunaniaith eisoes yn gwneud rhywfaint o waith fel hyn, ar y cyd efo ***Cymraeg i Blant a'r gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar***, a hoffem weld hynny yn parhau ac yn ehangu dros y blynyddoedd nesaf.

## 3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu

**Y weledigaeth...**

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg – fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

**Y darlun ystadegol...**

**Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 1,997, sef 73% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg, a 13,038, sef 92% o'r plant 5-15 oed.**

**Yn ôl ystadegau'r Siarter Iaith, a gyhoeddwyd yn Asesiad Llesiant Gwynedd yn ddiweddar, dim ond 41.2% o ddisgyblion CA2 sydd yn defnyddi'r Gymraeg "bob amser" ar iard neu fuarth yr ysgol.**

**Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn gostwng yn sylweddol wrth symud o'r grŵp oedran 3-15 oed i 16-24 oed, o 89% i 58.6%.**

**Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 yn nodi bod dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 oed, gan symud ymlaen i addysg bellach, seiliedig ar waith, neu gyflogaeth.**

**Beth sydd angen digwydd nesaf?**

Er mwyn gallu sicrhau bod y Gymraeg yn parhau yn gadarn fel iaith dysgu ac addysgu yn y sir, y flaenoriaeth ar gyfer y maes hwn fydd sicrhau cyswllt amlwg rhwng cyfrwng dysgu ac iaith gwaith, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff dysgu a theulu'r ysgol a'r colegau o'u rôl nhw i hybu'r Gymraeg yn eu sefydliadau a'u cyfraniad at y weledigaeth ehangach ar gyfer y sir.

Mae sawl cynllun yn cael ei weithredu gan adran addysg y sir sydd yn mynd i'r afael â'r maes hwn, gyda Pholisi Iaith Adran Addysg Gwynedd a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y gwaith hwnnw. Wrth ymestyn gweithrediad y cynlluniau hynny dros y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio cael dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd ac ar ddewisiadau ieithyddol pobl ifanc, fydd yn ei dro yn arwain at agwedd fwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg wrth iddynt dyfu yn oedolion.

Y prosiect fydd yn cael y prif sylw dros y cyfnod nesaf yw **Strategaeth Iaith Uwchradd** y sir, sydd wedi ei datblygu i fod yn ddilyniant i waith y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir – cynllun a ddatblygwyd dan y Strategaeth Iaith sirol flaenorol. Nod y Strategaeth Uwchradd yw sicrhau bod y

Gymraeg yn gyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd ieithyddol plant a phobl ifanc, mewn cyd-destun cwricwlaidd a chymdeithasol.

Bydd pob ysgol yn gweithredu'r **Strategaeth Iaith Uwchradd** ac yn gweithio i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r cynllun. Bydd yn ceisio sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn dewis astudio ac ennill cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd – a fydd gobeithio yn arwain at fwy yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel addysg bellach ac uwch; yn datblygu arweinwyr ifanc drwy roi rôl amlwg i bobl ifanc a Chynghorau ysgol wrth drefnu gweithgareddau a dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion; ac yn sicrhau bod staff yr ysgol yn deall eu rôl wrth fod yn fodelau rôl ac i annog a chefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fydd yn datblygu eu sgiliau dwyieithog.

Mae'r **Siarter Iaith** yn parhau i dyfu hefyd - a bellach yn cael ei gweithredu led-led Cymru dan arweiniad y Llywodraeth. Mae'r prosiect hwn yn golygu bod ysgolion cynradd yn gwneud gwaith da i ddylanwadu ar agweddau a defnydd iaith disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bydd parhau i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i staff a theulu yr ysgol i weithredu'r Siarter yn allweddol.

**Addysg ôl-orfodol**

Byddwn hefyd yn gweithredu i geisio lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg naturiol sydd yn cael eu colli wrth iddynt adael yr ysgol a'i dylanwad.

Mae cyswllt amlwg yma gyda defnydd o'r iaith mewn gwaith, a'r angen i bobl ifanc weld ei gwerth fel sgil ac ased. Byddwn felly'n cydweithio gyda darparwyr addysg ôl-orfodol er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng cyrsiau galwedigaethol a'r cyfleoedd gwaith a chyflogwyr yn y sir sydd yn chwilio am weithwyr gyda sgiliau ieithyddol, a sicrhau bod y gallu a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y byd gwaith yn lleol yn cael ei fodloni gan y system addysg.

## 3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth

**Y weledigaeth...**

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac ar lein
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol

**Y darlun ystadegol...**

**Yn ôl ymchwil Arolwg Defnydd Iaith Cenedlaethol 2013-15, mae 85% o siaradwry Cymraeg rhugl Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae hyn wedi gostwng o'r 90% a nodwyd yn yr Arolwg ar gyfer 2004-06**

**Mae dros 90% o staff Cyngor Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, sydd yn golygu bod posib i holl drigolion Gwynedd gael gafael ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg, lle bynnag y byddant.**

**Beth sydd angen digwydd nesaf?**

Byddwn yn ceisio sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosib i bobl ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn y sector cyhoeddus a phreifat, a bod y gwasanaethau hynny yn hawdd eu deall a'u defnyddio.

Bydd hyn yn golygu cydweithio gyda chyrff eraill drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cyhoeddus y sir, er mwyn annog defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser yn eu cyswllt cyntaf gyda chyrff cyhoeddus, ac er mwyn datblygu dealltwriaeth ymysg y cyrff eu hunain o'r arfer gorau wrth gyfarch defnyddwyr yn y cyswllt cyntaf hwn.

Mae'r Cyngor, fel cyflogwr, yn ymrwymo i ddatblygu amrywiaeth eang o hyfforddiant iaith er mwyn datblygu sgiliau'r gweithlu, i roi cyfleoedd i bobl ddysgu wrth weithio, i ymarfer sgiliau y maent newydd eu dysgu, ac i g eisio delio gyda materion o ddiffyg hyder mewn sgiliau ysgrifenedig, a hyn i gyd er mwyn arwain at newid arferion yn y gweithle. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar fodelau newid ymddygiad, er mwyn ceisio dylanwadu mewn ffordd gadarnhaol ar arferion iaith y gweithlu. Wrth ddatblygu sgiliau'r gweithlu byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyson i'r trigolion.

Bydd angen i ni ymchwilio i ffyrdd newydd o annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth i wasanaethau ar-lein a wyneb yn wyneb newid, a pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hamlygu a'i hybu fel rhan o gytundebau cyd-ddarparu neu allanoli gwasanaethau.

Drwy osod a chytuno ar amodau cryf gyda phartneriaid a darparwyr allanol, a mynnu bod cytundebau cydweithio yn glynu at ein hegwyddorion a'n safonau ni, gallwn wella ansawdd mwy o wasanaethau a gynigir i'r cyhoedd.

Yn unol â'r ymrwymiad yng **Nghynllun y Cyngor**, bydd angen gweithio gyda busnesau lleol, ac yn enwedig felly mewn meysydd fel twristiaeth a hamdden, er mwyn cynnig arweiniad ar roi llwyfan amlwg i'r Gymraeg yn eu gweithgarwch, ac i sgiliau Cymraeg (neu amlieithog) o fewn eu polisïau recriwtio.  Byddai hyn yn codi statws y Gymraeg fel iaith gwaith, yn ogystal a chodi proffil yr iaith ymysg ymwelwyr rhyngwladol, gan ychwanegu naws am le i'w hymweliadau.

Drwy sicrhau bod gan weithluoedd y sgiliau angenrheidiol a bod busnesau yn deall yr angen i roi gwerth a statws i'r Gymraeg wrth recriwtio byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn annog mwy o gyrff a busnesau i fabwysiadu egwyddor y cynnig rhagweithiol, i sylweddoli bod cwrteisi ieithyddol a pharch tuag at ddewis iaith yn gallu creu cymaint o ewyllys da ymysg defnyddwyr, ac y dylem bob amser anelu at allu cynnig y gwasanaeth sydd yn ateb yr angen ieithyddol, yn hytrach na disgwyl i bobl orfod gofyn amdano.

I'r perwyl hwnnw, bydd angen sicrhau cefnogaeth ymarferol i fusnesau er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac arwyddion a deunyddiau ysgrifenedig.

I adleisio'r flaenoriaeth ym maes Iaith dysgu hefyd, byddwn yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau sydd yn rhoi statws a phwys ar y Gymraeg er mwyn eu hyrwyddo fel cyflogwyr o ddewis ar gyfer profiad gwaith, ac er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng dewisiadau iaith addysgol ac iaith gwaith.

## 3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned

**Y weledigaeth...**

- Trigolion sydd yn hyderus yn defnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw eu bywydau dyddiol yn ein cymunedau.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, wrth gynnal ac wrth hysbysebu gweithgareddau a bod llai o weithgareddau uniaith Saesneg yn cael eu cynnal yn y cymunedau ,
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, y teimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg"
- Gweithio i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn gynhwysol – bod dysgwyr a siaradwyr llai hyderus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Cynghorau a grwpiau cymunedol yn ymwybodol o'u rôl posib ac yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.

**Y darlun ystadegol...**

**Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ond heb fod yn rhugl, gyda'r nifer wedi cynyddu yng Ngwynedd o 13,800 yn 2004-06 i 19,400 yn 2013-15.**

**Beth sydd angen digwydd nesaf?**

Mae'r fenter iaith yng Ngwynedd, Hunaniaith, yn rhan o'r Cyngor, ac felly bydd eu gwaith nhw a'u partneriaid yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn y maes hwn.

Bydd Hunaniaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau, ar y cyd gyda phartneriaid a mudiadau cymunedol, fydd yn:

- rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn cyd-destunau newydd ac amrywiol
- chwilio am gyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.
- rhoi cyfleoedd ymarfer a magu hyder i'r rhai sy'n llai parod i siarad neu sydd yn siaradwyr newydd.
- cynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr cymunedol
- codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl sydd gan bawb i chwarae wrth gynnal yr iaith, ac i ledaenu'r balchder yn y Gymraeg fel iaith fyw.

Bydd Hunaniaith hefyd yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd amrywiol ar gael i bobl , ifanc, sydd mewn cyfnod mor fregus a ddylanwadol yn eu bywydau, i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddwn hefyd yn defnyddio cynlluniau megis PCAI (prosiect cefnogi arferion iaith pobl ifanc) er mwyn magu hyder a sgiliau pobl ifanc i drefnu gweithgareddau a chynyddu defnydd cyfoedion o'r Gymraeg.

Byddwn hefyd yn ceisio cydweithio gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio yn gymunedol, megis Grŵp Cynefin, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Pontio er mwyn sicrhau'r dylanwad ehangaf posib, ac yn cynnig cefnogaeth i leoliadau sydd yn cynnal gweithgareddau teuluol ac yn ystod gwyliau ysgol er mwyn cynyddu'r cynnig Cymraeg.

Er mwyn ategu'r gwaith hwn, mae'n hollbwysig bod cynrychiolwyr cymunedol ac aelodau etholedig yn ymwybodol o'u rôl a'u dylanwad, ac yn defnyddio'r wybodaeth leol sydd ganddynt i gyfeirio pobl a busnesau am gymorth, ac i sicrhau bod y Gymraeg yn cael chwarae teg mewn digwyddiadau o bob maint yn ein cymunedau. Byddai codi statws yr iaith o fewn rhai digwyddiadau mawrion yn enwedig, a'u gweld yn rhoi lle amlwg i ddarparwyr ac adloniant Cymraeg, yn dangos i bobl ifanc a'r gymuned yn ehangach bod gwerth i'r iaith ym mhob maes.

Bydd hefyd yn hollbwysig sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth deg o fewn polisïau a chynlluniau strategol y Cyngor sydd yn mynd i effeithio ar y cymunedau, a sicrhau bod unrhyw asesiadau effaith ar gynigion a pholisïau newydd yn ystyried unrhyw effaith posib ar allu'r trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Bydd yr uned iaith ac uned Gynllunio'r Cyngor yn parhau i gydweithio er mwyn datblygu arbenigedd cynllunio ieithyddol yn y maes hwnnw. Bydd yr uned iaith yn rhoi mewnbwn arbenigol ac annibynnol i'r uned gynllunio er mwyn gwarchod buddiannau ieithyddol o fewn y broses gynllunio**

## 3.5 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg –gosod y seiliau cywir

**Y weledigaeth...**

- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg
- Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith

**Beth sydd angen digwydd nesaf?**

Byddwn yn ceisio manteisio ar ein sefyllfa unigryw, a'r crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg yn y sir, er mwyn deall arferion a thueddiadau pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac i geisio cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg – ac yn benodol felly wrth ddefnyddio technoleg.

Byddwn yn ceisio datblygu'r berthynas gyda Phrifysgol Bangor, a Phrifysgolion eraill Cymru er mwyn canfod cyfleoedd i gyfrannu at waith ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol a newid ymddygiad, fydd yn ei dro yn ein helpu ni i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau ac i addasu i'r newidiadau hynny.  Byddwn yn cydweithio yn benodol gyda Phrifysgol Bangor ar fodelau newid ymddygiad, ac i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o elfennau ymarferol cynllunio ieithyddol, ac er mwyn cyfrannu at arbenigedd yn y maes.

Fel Cyngor byddwn yn edrych ar brosiectau fydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y we, ar y cyfryngau cymdeithasol ac wrth ddefnyddio hunanwasanaeth, ac yn ystyried sut orau i gyflwyno'r Gymraeg yn y cyd-destunau yma er mwyn dylanwadu a chynyddu defnydd ohoni.

## 4. Gweithredu'r Cynllun Hybu

Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar y meysydd hynny y mae gan y Cyngor ddylanwad uniongyrchol drosto, ac ar waith fydd yn cael ei arwain gan adrannau o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau a chynlluniau sawl asiantaeth a chorff arall yn gorgyffwrdd ar draws y meysydd blaenoriaeth, bydd gan sawl sefydliad cyhoeddus a chymunedol rôl allweddol i'w chwarae wrth hybu'r Gymraeg ac wrth weithredu'r Cynllun hwn hefyd.

Er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n cael yr effaith gorau posib a'u bod yn cyfrannu tuag at ymdrechion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg – ac o ganlyniad yn nifer y siaradwyr - bydd angen sicrhau llwyfan priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydlynu ymdrechion, ynghyd a monitro cynnydd prosiectau ar y cyd.

Wrth gydweithio ar draws Gwynedd a Môn, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft gellir rhannu adnoddau, arbenigedd a syniadau er mwyn datblygu'r cynnig Cymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau.

Bydd cynnal perthnasau effeithiol gyda sefydliadau megis Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a sawl sefydliad arall sydd yn derbyn arian drwy grant hybu'r Gymraeg y Llywodraeth hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith, a bod ein hymdrechion i warchod a hyrwyddo'r iaith yn ein cymunedau yn gweithio tuag at yr un nod.

Mae'r prif bartneriaid sydd eisoes wedi eu hadnabod yn cynnwys:

Gwasanaethau mewnol:
Blynyddoedd Cynnar
Adran Addysg
Llyfrgelloedd
Gwasanaeth Ieuenctid
Gwasanaethau Busnes
Economi a Chymuned
Adran Gynllunio
Hunaniaith
Menter Iaith Bangor
Swyddog Byd Busnes (Llywodraeth Cymru a Mentrau Iaith)

Prifysgol Bangor
Mudiad Meithrin
Cymraeg i Blant
Gwasanaeth Iechyd
Parc Cenedlaethol Eryri
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Urdd
Ffermwyr Ifanc
Grŵp Llandrillo Menai
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Grŵp Cynefin
Cynghorau Tref a Chymuned
Darparwyr a mudiadau cymunedol

Bydd Rhaglen Waith flynyddol y Cynllun Hybu (bydd rhaglen Blwyddyn 1 yn cael ei gyhoeddi gyda'r drafft terfynol hwn) yn manylu ar y syniadau sydd gennym ar gyfer cydweithio a gweithredu er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Y nod yw fod yr iaith Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn dod yn rhan naturiol o bolisi a gweithrediad cynlluniau economaidd, adfywio, cynllunio, polisi tai , addysg a chymhathu a bod y Gymraeg a chynllunio ieithyddol yn rhan greiddiol o ddatblygu cynlluniau, strategaethau, rhaglenni, polisïau, prosiectau a gweithgareddau a ddarperir ac a gynhelir eisoes yng Ngwynedd.

Hyn oll ar y cyd ag ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gynhelir gan gymunedau yn uniongyrchol eu hunain.

## Rhaglen Waith Gychwynnol Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023

**Cyflwyniad:**

Cynigir y rhaglen waith hon fel man cychwyn ar gyfer gweithredu ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Hybu.  Mae'n amlygu cynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi awgrymiadau ar gyfer prosiectau y gellir eu datblygu, ar y cyd gyda sefydliadau eraill, dros gyfnod y Cynllun.

Bydd y rhaglen waith hon yn ddogfen fyw, fydd yn cael ei diweddaru a'i haddasu wrth i drafodaethau a chynlluniau ddatblygu.  Bydd manylion am union brosiectau neu ymrwymiadau cydweithio yn cael eu hychwanegu wrth iddynt ddod yn gliriach, ac wrth i feysydd a chyfleoedd newydd godi mewn trafodaethau gyda'r sefydliadau partner.

O dan bob maes blaenoriaeth felly, rydym yn eich atgoffa o'r hyn rydym yn ei nodi yn y Cynllun Hybu fel yr hoffem ei weld yn digwydd, a pha gamau yr ydym yn gobeithio eu cymryd er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y maes hwnnw.

## Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu

**Y weledigaeth...**

- Gwell cydweithio rhwng asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg yn cael eu monitro a'u cefnogi yn briodol.
- Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol
- Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant o aelwydydd lle caiff mwy nag un iaith ei siarad sydd yn gallu'r Gymraeg.

## Camau gweithredu

- Sefydlu trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth sirol ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar, gyda'r nod o:
    - osgoi dyblygu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu yn briodol
    - cydweithio ar raglen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar
    - datblygu syniadau megis sefydlu Siarter Iaith ar gyfer darparwyr gofal cyn oed ysgol
    - canfod cyfleoedd cydweithio er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae a dysgu Cymraeg i'r teulu.
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal a darparwyr gweithgareddau i blant cyn oed ysgol a'u rheini er mwyn:
    - datblygu eu dealltwriaeth o fanteision amlieithrwydd a'r modd y gallant ddylanwadu ar agweddau rhieni y byddant yn dod i gyswllt â nhw
    - datblygu eu dealltwriaeth am sut i gefnogi dysgwyr
    - datblygu sgiliau cyflwyno yn ddwyieithog
- Cynnig cefnogaeth a chydweithio gyda darparwyr gweithgareddau i gynyddu nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd yn rhoi cyfle i blant a theuluoedd ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau anffurfiol a chefnogol.

## 3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu

**Y weledigaeth...**

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg – fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

### Camau gweithredu

- Gweithredu ar flaenoriaethau cyfredol cynlluniau'r Adran Addysg sydd yn edrych ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol:
    1. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
    2. Siarter Iaith ysgolion Cynradd
    3. Strategaeth Iaith Uwchradd
- Sicrhau bod cyfleoedd cynyddol i bobl ifanc ennill cymwysterau ac achrediadau y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysg ac mewn meysydd amrywiol fydd yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.
  Gwneir hyn drwy ddarparu cyfleoedd yn uniongyrchol ac hefyd drwy ddylanwadu ar ddarparwyr ac achredwyr cenedlaethol.
- Cydlynu gwaith gyda'r gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau bod mwy o gyfleoedd dysgu allgyrsiol ac anffurfiol yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn gyson ar draws y sir.
- Datblygu prosiect ar y cyd rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc am yr angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi o bob lefel, gan edrych ar sicrhau cyfleoedd profiad gwaith ffurfiol ac anffurfiol, a datblygu rhwydwaith rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr.

## 3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth

**Y weledigaeth...**

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio’r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac ar lein
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol



### Camau gweithredu

- Cydweithio ar brosiect y Cynllun Llesiant drwy Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn i annog mwy o bobl i ddefnyddio’r Gymraeg yn eu cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau cyhoeddus.
- Gweithredu prosiect Cynllun y Cyngor efo’r bwriad o annog busnesau i ddefnyddio’r iaith wrth gynnig gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys busnesau a threfnwyr digwyddiadau ar draws sawl sector.
- Parhau i gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar brosiectau sydd yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i’r sector gofal cychwynnol.
- Ymchwilio i gyfleoedd posib i gyfrannu at gryfhau a datblygu sectorau twf yn y sir, megis technoleg a datblygu apiau, gan edrych ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes
- Darparu hyfforddiant o fewn y Cyngor fydd yn cynyddu hyder a defnydd o’r Gymraeg yn y gwaith ac yn edrych yn benodol i ddatblygu sgiliau iaith staff mewn meysydd gwaith sydd yn cael eu hystyried yn rhai rheng flaen, sensitif:
    - Ieuenctid
    - Hamdden
    - Gofal

## 3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned

**Y weledigaeth...**

- Trigolion sydd yn hyderus yn defnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw eu bywydau dyddiol yn ein cymunedau.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, wrth gynnal ac wrth hysbysebu gweithgareddau a bod llai o weithgareddau uniaith Saesneg yn cael eu cynnal yn y cymunedau
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, y teimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg"
- Gweithio i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn gynhwysol – bod dysgwyr a siaradwyr llai hyderus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Cynghorau a grwpiau cymunedol yn ymwybodol o'u rôl posib ac yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.



**Camau gweithredu**

- Gwella cydweithio rhwng y Cyngor a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid cymunedol yn cael llais wrth bennu lle mae adnoddau ac ymyrraeth yn cael eu cyfeirio.
- Cynnal sesiynau rheolaidd gyda chynghorwyr a chynrychiolwyr cynghorau a mudiadau cymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth am eu rôl nhw wrth hybu'r Gymraeg yn y gymuned,
- Cynnal ymyrraeth wedi ei dargedu ar ardaloedd penodol, drwy waith hunaniaith, fydd yn ceisio:
    - Sicrhau cyfleoedd amrywiol a chyson i deuluoedd, pobl ifanc, a dysgwyr ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
    - Cynnig cefnogaeth i grwpiau a mudiadau cymunedol drefnu a chynnal gweithgareddau
    - Cynnig cefnogaeth i fusnesau wneud defnydd amlycach o'r Gymraeg
- Edrych ar ffyrdd y gallwn ddylanwadu a sicrhau bod digwyddiadau mawrion sydd yn cael eu cynnal yn y sir yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol y sir, drwy:
    - gynnig cefnogaeth i drefnwyr digwyddiadau.
    - Monitro defnydd iaith digwyddiadau sydd yn cael eu hariannu neu yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru
- Cryfhau ein dylanwad ar y sector breifat drwy'r broses gynllunio, gan gynnwys:
    - Sicrhau'r trefniadau asesu effaith (CCA) o fewn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygwyr yn deall effaith eu cynlluniau ar y gymuned leol ac yn gosod a gweithredu mesurau lliniaru priodol.
    - Cyfrannu arbenigedd at grwpiau neu fforymau allanol yng nghyd-destun datblygiadau mawr fel Wylfa, Horizon,
    - Datblygu system rhannu gwybodaeth gyda chynghorau cymuned a'r adran gynllunio (a'r Parc Cenedlaethol) er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau newid defnydd yn cael eu cyfeirio yn brydlon am gefnogaeth ac arweiniad.

## 3.4 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir

**Y weledigaeth...**

- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg
- Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith

### Camau gweithredu

- Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddatblygu prosiect Arfer - sydd yn edrych ar newid patrymau ac arferion defnydd iaith cydweithwyr - er mwyn canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith pobl a magu hyder ynddynt i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr.
- Hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth am feysydd ymchwil ac am ganfyddiadau neu gyhoeddiadau newydd sydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o arferion a newidiadau yn y maes.
- Cynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr mewn cyrsiau perthnasol er mwyn rhoi profiad ymarferol a chyfrannu at ddatblygu arbenigedd y dyfodol mewn cynllunio ieithyddol.
- Datblygu syniadau ar gyfer prosiectau fydd yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyd destun technoleg.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Medi 18fed 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad **yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Cyfreithiol** |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o dîm rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a thim rheoli'r Gwasanaeth Cyfreithiol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau yr arweinir arnynt o fewn Cynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3 PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR

### 3.1 Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethu'r Cyngor

3.2 Mae'r gwaith o hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor yn parhau, gan ganolbwyntio sicrhau darparu gwasanaethau'r Cyngor trwy'r Gymraeg. Un elfen sydd wedi cael ei hamlygu yw gwendidau yn y broses recriwtio, ble nad yw gofynion iaith swyddi yn eglur bob tro. Er mwyn helpu'r sefyllfa, 'rydym wedi datblygu dynodiadau iaith newydd, manylach nac o'r blaen. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r



**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

gefnogaeth sydd ar gael i staff sydd eisiau gwella neu loywi eu hiaith, yn ogystal â sicrhau nad yw'r Cyngor yn pellhau ei hun o'r gymuned trwy ei ddefnydd o iaith.

3.3 **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

3.4 Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gydag Is-grŵp Iaith Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mis Mehefin er mwyn adnabod ffrydiau gwaith posib. Byddwn nawr yn datblygu'r ffrydiau ymhellach gan ganolbwyntio ar brofiad y dinesydd o safbwynt ymwneud a gwasanaethau cyhoeddus yn yr iaith Gymraeg.

3.5 **Cadw'r Budd yn Lleol**

3.6 Mae'r gwaith o annog busnesau lleol i gystadlu am waith gan y Cyngor yn parhau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes er mwy sicrhau fod busnesau wedi cymhwyso ac yn derbyn cefnogaeth i gyflwyno tendrau o safon uchel. Hefyd mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau nad yw gofynion cytundebau yn cyfyngu cystadleuaeth yn ddiangen ac yn rhoi adborth cynhwysfawr i fusnesau yn dilyn proses dendro. Mae gwariant lleol y Cyngor yn parhau i dyfu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn gan dyfu o 56% yn 2015-16 i 62% yn 2017-18, ac rwy'n falch o weld hynny.

3.7 Mewn cyfarfod herio blaenorol bu i'm rhagflaenydd ofyn a oedd modd mewnoli mwy o waith cynlluniedig cynnal a chadw'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud gan weithwyr lleol. Yn dilyn ymchwiliad daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ymarferol symud o'r sefyllfa bresennol oherwydd yr ystod o arbenigeddau sydd ei angen a natur dymhorol y gwaith. Rydym yn barod wrth gwrs wedi mewnoli elfen o waith cynnal a chadw bychan ymatebol sydd wedi arwain at well ymateb a lleihad mewn costau.

3.8 Mae gen i elfen o bryder a ydym yn cynaeafu'r arbedion y mae'r gwaith da yn y maes yma yn ei gyflawni ac rwyf wedi gofyn i waith gael ei wneud er mwyn ymchwilio i hynny.

3.9 **Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith**

3.10 'Rydw i'n falch o nodi fod 130 o reolwyr a rhai swyddogion eraill bellach wedi derbyn hyfforddiant 6 diwrnod er mwyn eu harfogi i roi Ffordd Gwynedd ar waith. Mae'r hyfforddiant eisoes wedi esgor ar frwdfrydedd i edrych ar systemau'r Cyngor gan sicrhau fod holl wasanaethau'r Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn y maent yn ei wneud. Tra bod hyn yn golygu mwy o alw ar y tîm bychan sy'n cefnogi Ffordd Gwynedd, mae'n galonogol iawn gweld rheolwyr gwasanaeth yn gyrru'r gwaith yn ei flaen.

3.11 Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol bellach wedi dod i ddiwedd ei hoes ac mae angen ystyried lle ydan ni'n mynd nesaf i sicrhau fod yr egwyddorion yn cael eu gwreiddio ymhellach drwy'r Cyngor. Mae gwaith ar droed i lunio cynllun priodol ar gyfer y dyfodol.

3.12 **Cynllunio Arbedion**

3.13 Nid oes unrhyw argoel bydd y toriadau parhaus yn y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gwasanaethau allweddol yr ydym yn eu darparu yn dod i ben yn y dyfodol agos. Felly 'rydym wrthi'n gwneud y gwaith cefndirol angenrheidiol er mwyn paratoi i ymgynghori gydag aelodau etholedig y Cyngor a phobl Gwynedd ar eu blaenoriaethau pan ddaw ein setliad ariannol tebygol yn hysbys.

3.14 'Rydw i'n fodlon gyda'r cynnydd sydd yn cael ei wneud ar y cynllun yma, ac yn falch o weld cydweithio effeithiol wrth ddod a gwahanol elfennau ynghyd.

4 **PERFFORMIAD**

4.1 Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.*** Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith fewn yr **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ynghyd â'r **Gwasanaeth Cyfreithiol**.

4.2 Mae'r cyfrifoldeb am gynnwys gwefan y Cyngor gan **Wasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r** Cyngor. Rhwng Ebrill a Mehefin 2018 bu i 499,576 o unigolion ddefnyddio gwefan y Cyngor. Dewisodd 470 fynegi eu barn ar y wefan, gyda 372 (79%) yn rhoi sgôr o 5 allan o 5. O'r 98 (21%) nododd sgôr o lai na 5 allan o 5 dewisodd 51 i gyflwyno cwyn neu sylw. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn brydlon er mwyn datrys cwynion, gyda 65% o'r cwynion wedi eu datrys o fewn 3 diwrnod gwaith a 86% wedi eu datrys o fewn 7 diwrnod gwaith. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, 'roedd 2 gwyn yn parhau 'ar agor', ac yn destun gwaith datblygol er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan.

4.3 Rhan arall o waith y gwasanaeth cyfathrebu ac ymgysylltu yw cydweithio gydag adrannau'r Cyngor er mwyn cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn parhau yn bositif iawn, gyda sgôr o 10 allan o 10 wedi ei dderbyn ar gyfer y 6 cynllun a weithredwyd rhwng Ebrill a Mehefin. Wrth holi am ddatganiadau i'r wasg a negeseuon tebyg sy'n cael eu rhyddhau gan y Gwasanaeth, daeth yn amlwg nad oeddynt yn sicr faint o sylw oedd y datganiadau yn eu denu. Er mwyn helpu'r Gwasanaeth a minnau i fesur effeithiolrwydd cyfathrebu'r cyngor 'rydw i wedi gofyn i'r gwasanaeth i edrych am ffyrdd o fesur ardrawiad datganiadau cyhoeddus y Cyngor.

4.4 Un o gydrannau **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** y Cyngor yw'r **Uned Diogelwch Cymunedol.** Mae'r Uned yn cydweithio'n rhanbarthol a rhyngasiantaethol er mwyn lleihau trosedd ac anrhefn, mynd i'r afael a chamddefnyddio sylweddau, lleihau aildroseddu a thaclo ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gefnogaeth ar gyfer Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn cael ei ddarparu gan yr Uned. Rhan bwysig o ddyletswydd statudol yr Uned yw arwain Adolygiadau Lladdiad Domestig, gyda dau yn weithredol ar hyn o bryd. Mae'r Adolygiadau yma yn medru bod yn drwm ar adnoddau'r Uned, a phe byddai angen cynnal

adolygiad arall byddai'r Uned yn ei chael yn anodd iawn ymdopi gyda'r llwyth gwaith ychwanegol. Hefyd fel rhan o'u hymrwymiad tuag at welliant parhaus, mae'r Uned yn paratoi i gylchredeg holiadur i aelodau'r bartneriaeth er mwyn cywain eu barn ar y gefnogaeth sydd ar gael.

4.5 Pwrpas **Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor** yw datblygu gallu'r Cyngor a chyrff eraill i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd. Mae gwaith diwyd, tawel y gwasanaeth eisoes wedi talu ar ei ganfed ac yn cefnogi nifer o ddatblygiadau gwasanaethau o fewn y Cyngor. Yn ddiweddar bu iddynt hefyd ennill cytundeb gan GwE trwy dendr. Bydd y gwaith yma yn dadansoddi sgiliau iaith staff addysgu ar draws ardal GwE, yn ogystal â defnyddio sgiliau a rhaglenni a datblygwyd ar gyfer cyflawni'r gwaith at ddibenion eraill maes o law. 'Rydw i'n falch fod y gwasanaeth wedi llwyddo i ennill y gwaith ac rwy'n sicr y byddant yn elwa o'r profiad o dendro am waith a rheoli cwsmeriaid allanol.

4.6 **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** - Tra bod y gwaith o gymhwyso Rheolwyr i fedru cynnal asesiadau Iechyd a Diogelwch wedi bod yn mynd yn ei flaen, mae wedi dod i'r amlwg ei fod yn anodd, er yr holl ymgysylltu a cheisio dwyn perswâd, i gyfleu'r neges am bwysigrwydd Iechyd a Diogelwch i gnewyllyn bychan o reolwyr. Mae angen dod i waelod hyn ac mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am wneud gwaith pellach ar hyn. Bydd ystyriaeth i roi sylw i hyn o fewn fframwaith medrusrwydd cyflogaeth y Cyngor er mwyn sicrhau fod atebolrwydd ar unrhyw reolwr sydd yn peidio mynychu a / neu yn peidio gweithredu unwaith eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

4.7 Mae **Uned Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth. Yn y cyfnod adrodd o Ebrill i Fehefin 'roedd Galw Gwynedd yn ateb galwadau o fewn 53 eiliad ar gyfartaledd, gyda 6.28% o'r galwadau yn cael eu colli, sydd yn cynnal lefelau'r gwasanaeth ond yn ateb mwy o alwadau na'r cyfnod cyfatebol y llynedd.

4.8 Gwelwyd cynnydd yn y nifer o alwadau i'r Gwasanaeth Treth Cyngor yn holi am y premiwm ym misoedd cyntaf 2018. Ar un cyfnod 'roedd 46704 o gwsmeriaid wedi ceisio cysylltu, gyda dim ond 18.56% o'r galwadau wedi eu hateb gan y Gwasanaeth Treth Cyngor. Bu i Galw Gwynedd, y Gwasanaeth TG a'r Gwasanaeth Treth Cyngor gydweithio er mwyn gwella'r sefyllfa, gan arwain at 61% o alwadau yn cael eu hateb yn ystod mis Mehefin.

4.9 Yn gysylltiedig gyda'r maes yma wrth gwrs, rydym yn ceisio rhoi mwy o ddewis i'r cyhoedd wrth ymdrin â'r Cyngor a chynyddu'r nifer sy'n gallu cyflwyno ceisiadau am wasanaeth ar-lein drwy hyrwyddo **hunan - wasanaeth.**

4.10 Erbyn hyn, mae "ap Gwynedd" wedi mynd yn fyw ac mae modd i bobl Gwynedd roi gwybod i ni am dyllau yn y ffyrdd; achosion o faw ci; goleuadau stryd wedi malu; a thipio anghyfreithlon drwy ddefnyddio'r ap ffon. Ar ben hyn, mae'r nifer cyfrifon hunanwasanaeth a mewngofnodiadau yn parhau i gynyddu (33,090 o gyfrifon sef cynnydd o 7,500 yn fwy na'r un adeg y llynedd a dwbl y mewngofnodiadau).

4.11 Rydym yn cael trafferthion cychwynnol gyda'r gyfundrefn taliadau ysgolion ar-lein (enghraifft o un ysgol ple bo dim ond 15-20% o rieni yn ei ddefnyddio) ond rydym yn ymwybodol o'r rhesymau ac mae yna gynlluniau i geisio hyrwyddo'r cyfleuster hwn a chynyddu'r nifer o rieni sy'n ei ddefnyddio ar draws y Sir.

4.12 Yn dilyn herio perfformiad y **Gwasanaeth Cyfreithiol** rwy'n hapus gyda chynnydd y gwaith, gyda gwasanaethau yn gyffredinol yn datgan bodlonrwydd. Bu un digwyddiad diogelu data yn ystod y cyfnod o dan sylw, er nad ddatgelwyd gwybodaeth sensitif na niweidiol. Rwy'n fodlon bod y camau cywir wedi eu cymryd er mwyn gwella trefniadau mewnol i geisio atal digwyddiad tebyg eto

4.13 Prif faterion perfformiad yn unig a nodir uchod wrth gwrs. Tra fy mod wedi cael trafodaethau manwl ar amrywiol faterion eraill o fewn y gwahanol unedau, rwyf yn fodlon fod perfformiad gweddill yr unedau hynny o fewn yr amrediad perfformiad disgwyliadwy.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

6.1 Mae'r holl gynlluniau arbedion ar gyfer 2017/18 wedi eu gwireddu. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar opsiynau petai angen arbedion pellach o 2019/20 ymlaen.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Gallaf gadarnhau cywirdeb yr agweddau ariannol yn adroddiad yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Cyfreithiol, ac rwyf yn falch o gadarnhau cynnwys rhan 6 o'r adroddiad, sef bod y cynlluniau arbedion wedi eu gwireddu.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

**ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL – DATA PERFFORMIAD**


**CYFNOD PERFFORMIAD: EBRILL– GORFFENNAF 2018**

## Gwasanaeth Cyfathrebu Ac Ymgysylltu

**Pwrpas y Gwasanaeth (Gwefan Allanol y Cyngor):**
Galluogi'r cyhoedd i hunanwasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

**Mesurydd Perfformiad 1:**
Nifer a chanran y defnyddwyr sy'n adrodd eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r wefan (01 Ebrill 2018 – 30 Mehefin 2018)

- Cyfanswm ymweliadau i'r wefan dros y cyfnod: **499,576**
- Nifer wnaeth ddewis mynegi barn: **470 (0.09%)**
- Cyfanswm wnaeth nodi sgôr o lai na 5**:** **98 allan o 470 (21%)**
- Cyfanswm wnaeth nodi sgôr o 5 allan o 5: **372 allan o 470 (79%)**
- Newid ers tro diwethaf: **Canran sydd yn cynnig sgôr o 5 allan o 5 i fyny +1%**





**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod:**


Nifer bychan iawn wnaeth fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r teclyn adborth sydd i'w weld ar bob tudalen i fynegi barn ar y wefan.
O'r rhain, dim ond 98 wnaeth ddatgan eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn efo'r wefan drwy nodi sgôr o lai na 5 allan o 5. O blith rheini, fe ddewisodd 51 i gyflwyno cwyn neu sylw.

**Mesurydd Perfformiad 2:**

Sut rydym wedi ymateb i'r cwynion a'r sylwadau a dderbyniwyd (1 Ebrill 2018 – 30 Mehefin 2018):

- Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd dros y cyfnod**: 51**
- Cyfanswm y cwynion hyn sydd wedi eu datrys**: 49**
- Cyfanswm y cwynion hyn sydd yn parhau i fod "ar agor"**: 2**
- Llwyddwyd i gau 33 (65%) o'r sylwadau / cwynion o fewn 3 diwrnod gwaith a 44 (86%) o fewn 7 diwrnod gwaith





| NATUR Y GWYN/SYLW/CAIS | NIFER | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Chwilio am wybodaeth ychwanegol i'r hyn sydd ar y wefan yn barod** | 18 | e.e. beth ydi oriau agor mynwentydd / eisiau rhagor o wybodaeth am bremiwm treth cyngor ayyb. Wedi gweithio efo'r gwasanaethau unigol i ddarparu'r wybodaeth ar y wefan |
| **Cael trafferth dod o hyd i wybodaeth** | 9 | Wedi ychwanegu lincs er mwyn helpu i amlygu'r wybodaeth, ac ychwanegu meta data i dudalennau i wella'r system chwilio |
| **Chwilio am rif ffôn/e-bost swyddogion** | 7 | Sawl un o'r rhain yn cyfeirio at y Gwasanaeth Cynllunio...dim ond rhif G.Gwynedd a linc cysylltu drwy hunanwasanaeth sydd yn cael ei hyrwyddo |
| **Gwybodaeth anghywir / wedi dyddio** | 6 | Sawl un o'r rhain yn cyfeirio at y ffaith bod amserlen Storiel ddim yn gyfredol. Trefn mewn lle yn gofyn i wasanaethau wirio eu manylion |
| **Problem dechnegol / linc wedi torri** | 5 | Trafferth wedi bod efo un amserlen bws yn ystod y cyfnod |
| **Arall** | 6 | Amrywiol / "one offs" |

**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod:**

- Wrth ymateb i'r cwynion yma mae'r tîm yn canolbwyntio ar ddatrys y broblem "unwaith ac am byth".
- Oherwydd newidiadau staffio a'r penderfyniad i ddileu un swydd o'r Uned, mae ychydig o lithriad wedi bod dros y 3 mis diwethaf yn yr amser mae'n cymryd i ddatrys cwynion. Tra nad yw'r llithriad yn arwyddocaol, mae trefniadau amgen bellach mewn lle i lenwi'r bwlch.
- Mae'r ddau sylw/cwyn sydd heb eu datrys yn cyfeirio at yr angen i wella'r ffordd mae gwybodaeth am feysydd parcio yn cael ei gyflwyno ar y wefan. Mae'r Uned yn cyd-weithio gyda'r Tîm Technegol yn TG a'r Gwasanaeth Parcio i ymateb i'r sylwadau yma.

**Pwrpas y Gwasanaeth (Cyfathrebu allanol):**
Galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal deialog dwyffordd gyda phobl Gwynedd

**Mesurydd Perfformiad 1:**
Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sgôr allan o 10 a dderbynnir ar ddiwedd cynllun penodol mewn ymateb i'r cwestiwn: "I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda Phobl Gwynedd?"




**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

- Derbyniwyd sgôr o 10 allan o 10 ar gyfer y 6 cynllun a gefnogwyd rhwng Ebrill a Mehefin.
- Mae'r ffurflenni adborth yn amlygu'r ffaith fod gwasanaethau'r Cyngor o'r farn fod yr Uned yn ychwanegu gwerth i'w cynlluniau a bod croeso mawr i'r gefnogaeth newydd a gynigir o safbwynt cyfathrebu gweledol, arbenigedd creu clipiau fideo a'r defnydd cynyddol o wefannau cymdeithasol i gyfathrebu negeseuon allweddol.
- O safbwynt barn yr Uned Gyfathrebu ar y cyd-weithio, byddem yn nodi:
    - fod ymwybyddiaeth gwasanaethau unigol o'r angen i baratoi a chynllunio ar gyfer yr elfen cyfathrebu ac ymgysylltu o'u gwaith yn parhau i gynyddu;
    - nad yw pob gwasanaeth bob tro'n gwerthfawrogi'r ffaith fod eu hadroddiadau pwyllgor o ddiddordeb ehangach ac y dylid ystyried sut y gellir paratoi'n rhagweithiol ar gyfer hyn;
    - fod lle i wella o safbwynt sicrhau briff clir i'r Uned ar gyfer y gefnogaeth sydd ar gael i gynhyrchu dogfennau sy'n apelgar yn weledol, fideos hyrwyddo ayyb.

# Gwasanaeth Cefnogol

## Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:

Darparu Gwasanaeth Gweinyddol hyblyg a chywir er mwyn rhyddhau amser staff y Cyngor iddynt wasanaethu pobl Gwynedd.

**Mesurydd Perfformiad 1:**

Cysylltu gyda'r ymgeiswyr i ofyn am adborth o sut brofiad oedd ymgeisio am swydd gyda'r Cyngor ac i adnabod os oes rhwystrau sydd wedi creu problemau diangen

"A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"

100% o'r adborth yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth.

**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

Mae ymgeiswyr yn hollol hapus hefo sut maent yn mynd ati i gyflwyno ffurflen gais ar lein.

**Mesurydd Perfformiad 2:**

Cysylltu gyda Rheolwyr perthnasol o fewn Cyngor i ofyn am adborth am y gwasanaeth ac i adnabod y rhwystrau maent yn ei gael sydd yn creu problemau iddynt wrth ymgeisio i wasanaethu pobl Gwynedd.

"A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"

68% o'r adborth yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth.

## Stori tu ôl i'r perfformiad uchod

Amgylchiadau wedi codi lle fod aelodau staff heb ddilyn pob cam er mwyn cyflawni'r dasg dan sylw yn gywir.

Rydym eisoes wedi adnabod newid yn ein ffordd o weithio er mwyn codi safon a chysondeb yn y gwaith; serch hynny mae amgylchiadau lle fod "dip" wedi digwydd oherwydd cyfnod hyfforddiant a thrawsnewid yn ein tasgau gwaith wedi adlewyrchu ar y perfformiad yn ystod y cyfnod yma (chwarter 1).


## Gwasanaethau Democrataidd

**Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:**
Cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd.

Galluogi trefniadau ac atebolrwydd democrataidd clir.

**Mesurydd Perfformiad:**

**Canran y rhaglenni pwyllgorau sydd wedi eu cyhoeddi yn electroneg o fewn amser**




**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod:**

Mae'r mesurydd uchod yn mesur y canran rhaglenni pwyllgorau sydd wedi eu cyhoeddi o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y pwyllgor ar gyfer prif bwyllgorau'r Cyngor. Mae'n dangos pa mor brydlon mae pobl Gwynedd yn gallu gweld dogfennau fydd yn cael eu trafod.

Mae'r perfformiad yn uchel, gyda 96% wedi eu cyhoeddi yn electroneg o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y pwyllgor ar gyfer dechrau 18/19.

## Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant

### Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:

Rhoi cyngor amserol i swyddogion y Cyngor, aelodau etholedig a llywodraethwyr ysgolion ar sut i warchod iechyd diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd, a monitro ansawdd.


**Mesurydd Perfformiad 1:**


Nifer o ddiffygion sydd wedi eu canfod mewn archwiliadau rhaglenedig.


Mae hwn yn parhau i fod yn fesurydd, ond cafwyd cais yn y cyfarfod herio perfformiad olaf i wneud ymarfer pen-desg er mwyn rhoi trosolwg i'r Aelod Cabinet o safonau ym mhob Adran fel y mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn ei gweld hi. Roedd hyn oherwydd fod y rhaglen gylchol i archwilio pob Gwasanaeth yn mynd i gymryd 5 mlynedd i'w chwblhau, ac roedd dymuniad cael trosolwg ar y sefyllfa ynghynt na hynny.


Mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch wedi ei ddynodi i weithio gyda Adrannau penodol fel prif bwynt cyswllt. Mae gan pob un o'r Ymgynghorydd lawer gwell trosolwg a theimlad felly am sut mae'r Adrannau y maent yn gyd-weithio â hwy yn perfformio ar iechyd a diogelwch na neb arall. Mae 10 cwestiwn safonol wedi ofyn i'r Ymgynghorwyr am yr Adrannau penodol y maent yn weithio a hwy ac mae'r canlyniadau wedi eu harddangos isod ar ffurf siartiau sydd wedi eu lliwio ar ffurf goleuadau traffig gyda coch yn dangos y bylchau mwyaf. Mae'r cwestiynau wedi eu llunio fel eu bod nid yn unig yn mesur cydymffurfiaeth statudol, ond hefyd yn rhoi blas o le mae'r Adran arni o ran y model rheolaethol o fod yn eithaf hunan gynhaliol o ran rheolaeth risg gan dynnu Ymgynghorydd i mewn ar faterion arwyddocaol yn unig.


Mae'r 10 cwestiwn yn ymwneud a
C1. Nifer damweiniau
C2. Adrodd ar fethiannau agos
C3. Trefniadau a fforymau I&D rheolaidd
C4. Hyfforddiant i reolwyr
C5. Gallu i gynnal asesiad risg addas a digonol yn annibynnol o'r tîm I&D canolog
C6. Oes risgiau uchel ble fo bylchau yn eu rheolaeth
C7. Prosiectau a thrawsnewid
C8. Agwedd bositif a gweithredu ar argymhellion
C9. Amrywiaeth mewn safonau o fewn Gwasanaethau'r Adran
C10. Anghenion hyfforddi staff – wedi eu hadnabod?



Addysg
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10



Plant
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10


YGC
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10



Amgylchedd
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10



Oedolion
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10


Priffyrdd a Bwrdeistrefol
C1
C2
C3
C4
C5
C6
C7
C8
C9
C10




**2 Adran ble fo risgiau yn gyffredinol is ar wahân i rai Gwasanaethau**





**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

Y stori y tu ôl i'r uchod yw fod sgiliau dylanwadu wedi mynd a ni yn bell ar y trywydd cywir a fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn rhai Adrannau yn benodol, a fo rhai Adrannau bellach ar y blaen o rai eraill.

**Mesurydd perfformiad 2**

Nifer o ddyddiau gwaith sy'n rhaid aros am ymgynghoriad IG

Adroddwyd ym Mis Ebrill fod yr amser aros am apwyntiad iechyd galwedigaethol yr uchaf oedd erioed wedi bod. Oherwydd penodiadau newydd i'r Uned a newid yn y ffordd o weithio, mae'r amser aros bellach yn îs na'r hyn y mae wedi bod ers ddechrau 2017.




**Stori tu ôl i'r perfformiad**
Mae'r Uned iechyd Galwedigaethol wedi newid eu trefniadau gwaith er mwyn ceisio cyfarch yr amser aros sylweddol oedd yn bodoli ar gyfer gweld Ymgynghorydd. Mae hyn yn cynnwys craffu pob cyfeiriad er mwyn adnabod yr ymyrraeth mwyaf addas. Caiff ei adnabod mai nid ymgynghoriad fydd hynny ar bob achlysur.
Dylid nodi hefyd fod nifer y cyfeiriadau at Medra wedi gostwng yn dilyn naid arwyddocaol yn yr ystadegau ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ffigyrau bellach yn ôl i'r arfer.

## Galw Gwynedd, Siopau Gwynedd A'r Gwasanaeth Cofrestru

## Gwasanaeth Cofrestru

### Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:


"Galluogi'r cyhoedd i gofrestru digwyddiadau yn unol â gofynion y ddeddf, a darparu copïau tystysgrif."

**Mesurydd Perfformiad 1:**

Canran yr holiaduron bodlonrwydd sy'n graddio'r gwasanaeth Cofrestru Genedigaeth, Marwolaeth a Phriodasau yn dda iawn.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Yr unig sylwadau sydd wedi eu rhoi ar yr holiaduron am y gwasanaeth cofrestru yw fod yr ystafell gyfweld yn rhy boeth.





## Gwasanaeth Galw Gwynedd A Siopau Gwynedd (Cyswllt Cwsmer)

### Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:

*"Rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth"*

### Mesurydd Perfformiad 1: Bodlonrwydd Cwsmeriaid Galw Gwynedd


Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Galw Gwynedd.




### Mesurydd Perfformiad 2: Bodlonrwydd Cwsmeriaid Siop Gwynedd


Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Siopau Gwynedd.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**




Dros y chwarter diwethaf mae 86% wedi sgorio Siopau Gwynedd yn 10 ac 14% wedi sgorio llai, mae'r mwyafrif o gwsmeriaid sydd wedi nodi sgôr yn llai na 10 yn adrodd am ddiffyg sydd tu allan i'n rheolaeth ni, ond yr ydym yn cydweithio gyda Gwasanaethau eraill er mwyn datrys y problemau hyn.


## Mesurydd Perfformiad 3- Darparu Gwasanaeth Prydlon yn Galw Gwynedd




Mae ein perfformiad cronnus am chwarter 1 wrth ateb galwadau yn 0:53 eiliad, gyda 6.28% o alwadau wedi eu colli. Yr ydym wedi sefydlu trefn i fod yn adolygu ein perfformiad yn ddyddiol /wythnosol yn hytrach na misol yn unig, er mwyn gallu addasu ein trefniadau staffio fel bod angen.
Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o alwadau sy'n dod i mewn i'r Cygnor drwy Galw Gwynedd dros y chwarter olaf o 2017/18 a mis Ebrill 2018/19. Mae staff Galw Gwynedd wedi awgrymu fod y cynnydd oherwydd galwadau i'r Gwasanaeth Treth Cyngor, gyda Rheolwr Treth Cyngor yn adrodd eu bod wedi derbyn oddeutu 6000 yn fwy o alwadau oherwydd ymholiadau am y premiwm Treth Cyngor. Oherwydd y cynnydd yn y nifer o alwadau, mae hyn wedi cael effaith ar ein gallu i ateb galwadau o fewn amser derbyniol, ac i golli mwy o alwadau na'r arfer hefyd.

## Mesurydd Perfformiad 4– Darparu Atebion / Gwasanaeth yn Galw Gwynedd

Mae Galw Gwynedd yn darparu gwasanaeth i 36.27% o'r cwsmeriaid sydd yn cysylltu â Galw Gwynedd, yn erbyn 42.39% llynedd. Mae'r canran wedi gostwng, a dros y blynyddoedd sydd i ddod, disgwylir gweld lleihad pellach wrth i gwsmeriaid ddewis cysylltu â ni drwy eu cyfrif hunanwasanaeth.




## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am roi cyngor amserol ac o ansawdd da ar faterion cyflogaeth. Mae hefyd yn arwain y gwaith o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol, a thrwy hynny hyrwyddo arferion cyflogi da.

**Mesurydd Perfformiad 1:** Achosion disgyblu 2017 / 18 – y nifer o ddyddiau gwaith aeth heibio cyn bod achos disgyblu wedi dod i ben.




**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**:

Mae'r siart yn dangos fod yna dipyn o amrywiaeth ym mherfformiad y Cyngor wrth ymdrin ag achosion disgyblu. Mae ymdrin a mater disgyblu yn gallu bod yn fater o risg i'r Cyngor; gall delio ag achos yn anghywir arwain at gostau ariannol, problemau hirdymor o ran morâl ymysg timau, yn ogystal a niweidio enw'r Cyngor fel cyflogwr. Rydym o'r farn bod angen yn y lle cyntaf ceisio gostwng y cyfartaledd amser ar gyfer delio ag achosion.

**Mesurydd Perfformiad 2:** Nifer o apeliadau cyflogaeth sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth, a'r nifer o benderfyniadau gan y Pwyllgor sy'n mynd yn groes i benderfyniad y cyflogwr.

3 achos apêl wedi ei gynnal ers dechrau Ebrill, gyda'r Pwyllgor yn mynd yn groes i benderfyniad y cyflogwr mewn dau o'r achosion hynny.

**Stori tu ôl i'r perfformiad:**

Nid oes pryder penodol yn codi o'r penderfyniadau hyn. Fel sylw cyffredinol mae pedwar unigolyn eisoes wedi cofrestru apeliadau yn erbyn penderfyniad y cyflogwr (tri achos wedi eu cynnal hyd yn hyn). Dim ond cyfanswm o dri apêl gofrestrwyd trwy gydol 2017/18. Mae'r angen i geisio delio ag apeliadau yn gyflym yn bwysig yn llygaid tribiwnlysoedd cyflogaeth; bydd angen cadw golwg ar allu'r Pwyllgor i ddelio ag apeliadau yn amserol os yw'r llwyth achosion yn datblygu i fod yn drwm.

**Mesurydd Perfformiad 3:** Nifer o ddyddiau absenoldeb salwch y pen ar gyfartaledd
Nodyn: Ffigwr hyd at 31 o Fai yw'r isod. Bydd diweddariad ar lafar y 1af o Awst.

| 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|
| 1.35 | 1.46 |

**Stori tu ôl i'r perfformiad:**

Er bod yna gynnydd bychan yn lefel yr absenoldeb mae'n rhy gynnar yn y flwyddyn i ddod i gasgliadau pendant ar y rhesymau dros hynny.

## Uned Gyfieithu

### Pwrpas


Darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion

| **Mesur - Diffiniad** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** | **Sylwadau (Naratif sy'n cynnwys y stori)** |
|---|---|---|---|---|
| Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ysgrifenedig | 100% | Cynnal | 100% | Bellach rydym wedi derbyn 64 ymateb i'r holiadur gyda'r cwbl yn rhoi'r sgôr uchaf posib o 5. Cafwyd sylwadau cadarnhaol, fel a ganlyn (yn ychwanegol i'r rhai a gyflwynwyd i'r cyfarfodydd diwethaf):<br>*"Wedi anfon 3 dogfen yn ddiweddar ac wedi cael ymateb cyflym iawn. Gwasanaeth ardderchog. Diolch yn fawr."* |
| Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ar y pryd | 100% | Cynnal | 86%<br>(6/7) | Rydym wedi derbyn 7 ymateb i'r cardiau adborth ar Gyfieithu ar y Pryd mewn cyfarfodydd yn y chwarter hwn (yn ychwanegol i'r 9 yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol). Mae pob un ond un yn rhoi'r sgôr uchaf posib o 5. Cafwyd un sgôr o 4 ac mae'r eglurhad am hynny i'w weld yn y sylw cyntaf isod:<br><br>*"Clear and concise translation. Good calm voice. Would consider 2 translators if meeting over 1.5 hours (or I would have scored 5)"*<br>*"Very good and clear translation!"* |

## Gwasanaeth Dysgu a Datblygu:

### Pwrpas y Gwasanaeth:

Cynnig gwasanaeth ymgynghorol a darparu rhaglen Dysgu a Datblygu briodol sy'n galluogi staff ac Aelodau'r Cyngor i roi gwasanaeth sy'n cyfarch anghenion pobl Gwynedd




**Stori tu ol i'r perfformiad**

Mae'r sgôr cyfartalog (/10) yn arddangos mesur cyffredinol o berfformiad. Mae'n aros yn weddol gyson dros amser.

- Sgôr Awst 2018 (Cyfnod Ebrill – Gorffennaf): **MP1: 7.3** **MP2: 7.4** **MP3: 7.9**

Gan fod y sampl yn gymharol fach mae sgoriau unigol wedi cael effaith sylweddol ar y sgôr cyfartalog:

- Cafwyd sgôr o '1' gan ddau aelod o staff **(MP1)** am resymau tebyg:
  *"Mae angen cael mwy o gyrsiau sydd yn berthnasol i staff rheng flaen"*
  *"Byddai o fudd os byddai'r gwasanaeth ar gael yn berthnasol i bawb nid yn unig rheolwr llinell"*
- Mae'r sgoriau '5' a '6' gan Reolwyr **(MP2)** oherwydd capasiti/diffyg amser i fynychu
- Mae sgoriau o '2', '4' a '5' gan Aelodau **(MP3)** sydd heb fanteisio ar y rhaglen hyfforddiant

Mae'r tîm yn credu bod gwir angen amrywio a gwella'r dull o gasglu tystiolaeth (galwadau ffôn ac e-byst) er mwyn cael adborth mwy defnyddiol ar gyfer gwella (yn arbennig gan unigolion sydd heb fanteisio ar gyfleoedd datblygol). I'r perwyl yma:

## Gwasanaeth Datblygu'r Sefydliad

### Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:

Annog a hyrwyddo diwylliant sy'n caniatáu i staff fod ar eu gorau.

**Mesurydd Perfformiad 1: Cwynion a Gwella Gwasanaeth**

Nifer o gwynion ffurfiol dderbyniwyd o dan y Drefn Gorfforaethol y Cyngor Chwarter 1 2018

**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

Derbyniwyd 12 cwyn ffurfiol yn ystod y chwarter o dan y categorïau a ganlyn:- 9 Camgymeriad/ Gweithrediad anghywir gan y Cyngor; 1 Ymddygiad Swyddog; 1 Anhapus efo Penderfyniad ac 1 Diffyg Ymateb/Gweithredu. Daeth 8 cwyn oddi wrth yr Ombwdsmon - 7 yn dod yn ôl yn Ddim Ymchwiliad, 1 Ymholiad ar hyn o bryd. Hefyd cafwyd dau o rai o'r chwarter cynt yn ôl. 1 Dim Ymchwiliad ac 1 Adroddiad 21.

# Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth


## Pwrpas y Gwasanaeth:

Helpu pob aelod o staff i reoli gwybodaeth ar bapur neu'n electronig trwy:

- Darparu system ffeilio electronig sy'n hawdd i'w ddefnyddio
- Cynnig cyngor ar sut i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- Sicrhau bod y Cyngor yn cadw at Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Storio papur dros-dro mewn storfa bwrpasol

### Mesurydd Perfformiad 1:

Nifer digwyddiadau gwybodaeth (lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei dwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir)




**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

Mae nifer y digwyddiadau wedi parhau ar yr un lefel, yn anffodus. Bu dau ddigwyddiad lle bu i gyfeiriadau ebyst personol gael eu datgelu i eraill mewn rhestrau postio – bwletin Gwe ac ebost i lywodraethwyr. Cafwyd un achos lle anfonwyd ffurflen gais tim opsiynau tai (wedi ei chwblhau) i'r person anghywir. Anfonwyd llythyr ôl-ddyledion treth i'r person anghywir. Fe aeth ebost yn trafod statws budd-dal trigolion safle sipsiwn i'r cyfeiriad anghywir. Tystysgrif geni wedi ei anfon i'r cyfeiriad anghywir.

### Mesurydd perfformiad 2: Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Perfformiad ateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth- canran atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith rhwng 1af Ebrill 2018 – 17eg Gorffennaf 2018

***Perfformiad*** ***88% (382 o geisiadau wedi eu derbyn)***

Perfformiad blynyddoedd blaenorol:
2015-16 86%
2016-17 87%

**Mesurydd perfformiad 3: Diogelu Data**

Perfformiad ateb ceisiadau Diogelu Data – canran atebwyd o fewn 40 diwrnod calendr neu un mis calendr (ceisiadau gan unigolion i gael gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain) rhwng 1af Ebrill 2018 – 17eg Gorffennaf 2018

***Perfformiad 75% (12 cais)***

**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**

Yng nghanol y cyfnod adrodd bu newid i reolau deddf diogelu data newydd (o'r 25ain o Fai) ac felly lleihad yn yr amserlen ymateb ac anallu i ni godi ffi. Bydd rhaid disgwyl gweld dros y flwyddyn pa effaith gaiff hyn ar berfformiad. Ceisiadau'n hwyr oherwydd diffyg adnoddau.

# Gwasanaeth Caffael

## Pwrpas y Gwasanaeth / Uned:

"Galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian a chadw'r budd yn lleol"

**Mesurydd Perfformiad 1: Arbedion Caffael**

Mae'r cyfanswm o gynlluniau arbed caffael wedi cyrraedd £3.55m ers y cyfnod 2014/15 yn erbyn y targed o £2.3m.


Mae'r Timau Categori yn cydweithio gyda'r gwasanaethau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau newydd i geisio arbed arian, mae'r timau wedi adnabod cynlluniau arbed fel y ganlyn hyd yma.


- Tîm Amgylchedd = *£263,152*
- Tîm Corfforaethol = *£124,100*
- Tîm Pobl = *Gwariant o £2.7m yn cael ei adolygu ond heb ymrwymo i fesur o welliant.*

**Stori tu ôl i'r perfformiad uchod**
Mae'r pwysau gwaith ac amser swyddogion mewn rhai achosion yn golygu nid ydym yn cael y cyfle i adolygu'r meysydd mewn manylder. Yn hytrach mae cytundebau yn cael ei adnewyddu a'i ail gaffael. Serch hyn, mae'r gwelliannau a newidiadau sydd yn cael ei wneud wedi sicrhau gwerth am arian a chyfleoedd i'r farchnad leol.

Mae'r ddealltwriaeth a'r cydweithrediad rhwng y timau a'r gwasanaethau yn gwella, ond oherwydd natur rhai cytundebau a'r gwaith paratoi mae'r rhai o'r cynlluniau caffael yn cymryd amser yw cwblhau.
Mae' r Timau Categori hefyd yn disgwyl am gadarnhad o gynlluniau arbed y Cyngor. Er bod disgwyl i'r Timau Categori gyflwyno rhaglen arbed neu welliannau ei hunain, mae blaenoriaethau'r gwasanaethau a ble mae cynlluniau effeithlonrwydd neu doriadau yn debygol o ddisgyn am gael effaith a dylanwad yn ble maent am ganolbwyntio yw ymdrechion.

***Mesurydd Perfformiad 2: Gwariant Lleol***



**Stori tu ôl i’r perfformiad uchod**

*Gwariant Lleol Chwarterol- Cymhariaeth Chwarter 1 rhwng 2017/18 a 2018/19*

Gwelwn y canran lleol yn aros yn gyson ar 59% o gymharu â’r un chwarter o’r flwyddyn flaenorol. Er bod y canran yn gyson mae yna gynnydd a gostyngiad o fewn nifer o wahanol gategorïau.

Bydd yna gynnydd yn y meysydd Gofal Cartref, Cynnal a Chadw Adeiladwaith a Gwariant Trydedd Sector ond gostyngiad yn feysydd Gofal Preswyl, Trafnidiaeth Cyhoeddus a Gwaith Cynnal Ffyrdd.

Nid oes rhesymau penodol am y symudiadau bychain tu hwnt i allu’r farchnad ymateb yn gystadleuol neu bod gofynion y gwasanaeth tu hwnt i allu’r farchnad leol, er enghraifft gofal arbenigol sydd ddim ar gael o fewn y Sir.

Mae’r mesur refeniw a chyfalaf wedi cynhyddu 5% o gymharu â’r un chwarter o’r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gwariant ar brosiectau adeiladwaith cyfalaf, ble nad yw’r farchnad leol yn gystadleuol, wedi lleihau’n sylweddol. Rhwng 2017/18 a 2018/19 gwelsom ein gwariant yn gostwng dros £1.2m.

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Medi, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Datblygu'r Economi |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli Economi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Rydym bellach wedi cychwyn ar weithredu Cynllun y Cyngor 2018-23 a gafodd ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn mis Mawrth eleni. Yma, rwyf yn adrodd ar y cynnydd ers mis Ebrill 2018 hyd at ddiwedd Mehefin 2018.

1.4. Yn y misoedd diwethaf, mae'r pwyslais wedi bod ar barhau gyda rhai o'r prosiectau a sefydlu'r prosiectau newydd sydd yn rhan o'r Cynllun 2018-2023. Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o brosiectau, gyda phob un ar y trywydd cywir. Mae'r gwaith o sefydlu rhai o'r prosiectau newydd wedi bod yn araf ond rwyf yn gyfforddus bod y trefniadau cywir bellach mewn lle ac yn edrych ymlaen at gael gweld y gweithgaredd yn cychwyn. Fodd bynnag, mae rhai meysydd angen sylw pellach - boed hynny trwy waith yr adran neu waith ehangach gan y Cyngor. Byddaf yn ymhelaethu ar y materion yn yr adroddiad.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

-

**2. PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR**

**4.1. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)**

4.1.1. ***Bydd y prosiect yma yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai.***

4.1.2 Mae'r prosiect yma wedi gweld cyfnod heriol dros y misoedd diwethaf, gyda nifer o gwmnïau a gefnogwyd ar hyd y blynyddoedd yn symud allan o'r sir. Mae diffyg gofod busnes hefyd yn parhau i fod yn rhwystr, a gwelir achosion lle mae darpar fuddsoddwyr yn dewis cychwyn eu busnesau mewn lleoedd eraill. Er bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ystyried datblygu eiddo a thir ar gyfer busnesau yn un o'i flaenoriaethau, mae'r mater yma yn rhywbeth rwyf yn awyddus i drafod ymhellach gyda'r adran yn ystod y misoedd nesaf er mwyn ystyried beth allwn ei wneud i wella'r sefyllfa.

4.1.3 Mae'r prosiect yn parhau i weithio i ddenu datblygiad newydd i safle Trawsfynydd, gyda Bargen y Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn cynnig arwyddion cadarn bod potensial i leoli'r dechnoleg adweithiau bychain 'SMR'; yn Nhrawsfynydd. Bu i'r Fargen gael ei lansio yn swyddogol yn Nhrawsfynydd ym mis Mehefin.

4.1.4 Mae'r gwaith o ddatblygu safle Llanbedr yn parhau gyda'r nawdd ariannol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ei gadarnhau, a'r Cyngor hefyd wedi adnabod £500,000 o gyfraniad, os yw'r cais yn llwyddo. Bydd y cais am ganiatâd cynllunio yn mynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Parc ym mis Medi.

**4.2. Busnesau'n cael cymorth i Ffynnu**

4.2.1 ***Pwrpas y prosiect yw sicrhau dull gweithredu yn y Cyngor sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog ac yn ceisio lleihau rhwystrau iddynt sefydlu a thyfu yn y sir.***

4.2.2 Prosiect newydd yw hwn, ac fe fydd yn un sy'n gweithredu yn draws adrannol. Mae busnesau'r sir yn ymwneud a nifer o Adrannau'r Cyngor ac yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Cychwynnwyd ar y gwaith o gael adborth gan y busnesau i ofyn pa fath o gymorth sydd ei angen arnynt. Yn ogystal, mae gwaith wedi cychwyn ar drafod a sgopio'r prosiect gyda'r adrannau perthnasol.

**4.3. Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig**

4.3.1 ***Pwrpas y rhaglen yma yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd a chefnogi buddsoddiad yr isadeiledd digidol, gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.***

4.3.2 Mae nifer o ddatblygiadau arloesol cyffrous bychain wedi derbyn cymeradwyaeth ers i mi adrodd i chi tro diwethaf. Mae'r cynlluniau yn cynnwys technoleg rithwir i hyrwyddo dealltwriaeth o ddementia; cefnogi bwytai i fanteisio ar lwybr Brailsford; a threialu ceir trydan yng nghefn gwlad. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i osod cyfrifiaduron cyhoeddus yn adeiladau cymunedol yng nghefn gwlad, a sefydlu systemau wi-fi cyhoeddus yng nghymunedau gwledig. Mae'r gwaith o adnabod y cymunedau sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi cychwyn.

4.3.3 Teimlaf fod gwaith pellach i'w wneud yn ceisio dal ac ystyried effaith y treialon yma yn y tymor hir, gan fy mod yn awyddus i ni sicrhau dyfodol i'r cynlluniau yma tu hwnt i'r cyfnod treial. Rwyf hefyd wedi nodi bod llai o ddiddordeb/ gweithgaredd yn ardal Dwyfor gyda'r prosiect yma, ac, yn awyddus i'r adran i edrych o ddifri ar yr ardal a gweld os oes modd ymateb i hynny.

**4.4. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith**

4.4.1 ***Pwrpas y prosiect yw gwireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn ardaloedd y llechi, a pharau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.***

4.4.2 Mae'r gwaith i gyflwyno cais i gael dynodiad ar gyfer safle Treftadaeth y Byd yn parhau gyda Llywodraeth y DU wedi cytuno i dderbyn yr enwebiad ym mis Medi, a'i gyflwyno i UNESCO ym mis Ionawr 2019, yn ddarostyngedig i 'werthusiad technegol' boddhaol.

4.4.3 Gwelir cynnydd sylweddol gyda'r gwaith o weithredu gweithgareddau adfywio yn ardal Caernarfon gyda'r gwaith adeiladu Gorsaf Rheilffordd Eryri yn dod at ei derfyn a Galeri 2 wedi agor dechrau Medi. Aethpwyd trwy'r broses tendro ar gyfer datblygu Cei Llechi dros yr haf, gyda'r gwaith i gychwyn yno mis Medi.

4.4.4 Eleni, mae'r rhaglen yma hefyd yn ystyried prosiectau adfywio Bangor. Mae cadarnhad wedi ei dderbyn bod Bangor yn flaenoriaeth adfywio yn rhanbarthol trwy arian Llywodraeth Cymru. Mae Partneriaeth Strategol Bangor wedi'i ffurfio i arwain y gwaith yma, ac mae blaenoriaethau adfywio'r Bartneriaeth wedi eu llunio. Y gamp fydd cynnal momentwm gyda'r gwaith yma a byddaf yn cadw llygaid ar hyn dros y misoedd nesaf. Awgrymais i'r adran hefyd wneud cyflwyniad i'r Fforwm Ogwen/ Bangor nesaf er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r blaenoriaethau sydd wedi'i gosod.

**4.5. Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion**

4.5.1 ***Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn***.

4.5.2 Ers mis Ebrill, mae'r prosiect wedi bod yn hyrwyddo pecyn cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau 2018/19, a hyd yma mae'r ymateb wedi bod yn dda, gyda 23 o ddigwyddiadau wedi derbyn cymorth yn ystod y cyfnod.

**4.6 Elwa o Dwristiaeth**

4.6.1. ***Pwrpas y prosiect yma yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd a chynyddu safon darpariaeth y diwydiant ymwelwyr.***

4.6.2. Dim ond megis cychwyn mae'r gwaith o sgopio'r prosiect yma, ond mae'r tasgau a'r cerrig milltir ar gyfer y flwyddyn wedi eu pennu. Y bwriad yw cynnal gweithdy gyda'r sector twristiaeth ym mis Medi er mwyn canfod barn a chynorthwyo gyda'r gwaith o osod cyfeiriad ar gyfer y prosiect.

4.7 **Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith**

4.7.1. ***Pwrpas y prosiect yma yw canolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.***

4.7.2. Mae'r prosiect yma yn parhau i weithredu pecyn o weithgareddau sy'n lleihau'r rhwystrau mae pobl Gwynedd yn eu hwynebu wrth geisio am waith neu fynediad at wasanaethau. Mae pecyn AdTrac yn targedu pobl ifanc 16 -24 oed sydd ddim mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant. Mae AdTrac yn gweithio gyda 80 o bobl ifanc yn y sefyllfa yma, ac wedi gweld 3 yn symud i waith ers mis Ebrill a 15 wedi'i derbyn i'r Coleg ar gyfer mis Medi. Gan ystyried pa mor bell yw rhai o'r bobl ifanc yma o'r farchnad lafur, teimlaf fod hwn yn ganlyniad positif ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

4.7.3. Comisiynwyd darn o waith i edrych ar dlodi mewn gwaith yn y sir er mwyn mynd dan groen y mater yma. Bydd y gwaith yma yn rhoi tystiolaeth i ni am y sefyllfa yma, ac y prif faterion sydd angen sylw. Byddaf yn adrodd ymhellach ar y gwaith yma i chi tro nesaf.

**5. MESUR PERFFORMIAD**

5.1. Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2. Rwyf yn gyfforddus bod yr adran ar y trywydd cywir o ran mesurau perfformiad, ond yn awyddus i gael trafodaeth bellach gyda'r adran wrth iddynt lunio mesurau ar gyfer Cynllun Busnes nesaf.

5.3. Mae'r adran yn casglu mesurau maes (lle mae mwy nag un gwasanaeth yn bwydo i'r mesurydd) a mesurau fesul gwasanaethau.

**Mesurau Maes**

**Grant/ Cydariannu wedi ei sicrhau i'r sir -** Hyd at ddiwedd Mehefin 2018, gwelir bod £9.6m wedi ei ddenu i'r sir a hynny trwy gynllun isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr.

**Nifer o swyddi wedi eu creu gan fentrau yn derbyn cymorth** - Creuwyd 11 swydd gan fentrau o fis Ebrill i Fehefin a hynny o ganlyniad i osod unedau gwaith.

**Mesurau Gwasanaeth**

5.4. Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu, rheoli a hyrwyddo cronfeydd benthyciadau megis Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gaernarfon a Chronfa Ardal Bangor.

5.5 Mae'r mesurydd **'Ymholiadau busnes a weithredir arnynt'** yn dangos bod nifer yr ymholiadau busnes wedi gostwng (**56**) wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau ariannol. Er hyn, mae'r uned wedi cychwyn ar ymgyrch marchnata i godi ymwybyddiaeth o'r Cronfeydd Benthyciadau Canol Trefi. Mae'r nifer o ymholiadau sy'n dod am fenthyciadau ym Mangor yn isel, ac ymddengys bod hyder yn isel ar y stryd fawr. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y prosiect 'Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth Strategol ym Mangor. Byddaf yn cadw llygaid ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf i weld a oes rhwystrau penodol eraill yn effeithio ar nifer sy'n gwneud cais am fenthyciadau ym Mangor. Yn ogystal, mae Cronfa Benthyciadau di-log ardaloedd Penygroes a Bethesda wedi ei lansio a bellach yn weithredol, ac ymholiadau eisoes wedi'i derbyn mewn perthynas â dod ac adeiladau segur yn ôl i ddefnydd.

5.6. Mater arall rwyf eisoes wedi ei godi wrth drafod prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yw bod diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal. Mae mesurydd **'Gofod diwydiannol/ menter y Cyngor sy'n llawn'** yn atgyfnerthu'r rhwystr yma, ac mae'n dangos bod **95%** o'n hunedau diwydiannol yn llawn.

5.7. Ers mis Ebrill, mae'r **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yn parhau gyda'r gwaith rhaglennu carthu manwl ar gyfer Harbwr Pwllheli. Y bwriad yw cynnal gwaith carthu yn ystod cyfnod Hydref 2018 hyd at Ebrill 2019. Nid yw ffigyrau ar gyfer mesurau'r Gwasanaeth wedi eu casglu hyd yma.

5.8 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd o ymwelwyr. Mae'r gwaith o greu gwefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd ac Mor yn parhau, gyda'r bwriad o gynnwys manylion dros 2000 o fusnesau ar y wefan. Un o'r prif fesurau yw **nifer o ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd ac Mor.** Mae fersiwn beta o'r safle we ar fin cael ei rhyddhau i'r sector gael mewnbwn, gyda'r bwriad o fynd yn fyw o fewn y misoedd nesaf. Mae'r gwaith yma wedi cymryd hirach na'r disgwyl, ond rwyf yn gyfforddus bod hyn wedi bod tu hwnt i reolaeth yr uned gwasanaeth. Un o brif ddarnau o waith sydd ar y gweill am y flwyddyn yw cynnal adolygiad llety 2018. Mae'r nawdd eisoes wedi'i ganfod a'r gwaith wedi cychwyn.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Rwyf yn falch o ddweud bod yr adran wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r holl gynlluniau sydd o dan fy mhortffolio i felly nid oes gennyf unrhyw fater i'w godi yma.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**ii.** **Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**iii.** **Y Pennaeth Cyllid:**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yn adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, ac mae'n galonogol gweld yn rhan 6 o'r adroddiad y bu cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r holl gynlluniau sydd yn ei bortffolio."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.


---

**Atodiadau:**


**Atodiad 1** **Mesurau Adran Economi & Chymuned (Datblygu'r Economi)**

# MESURAU AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI
(hyd at ddiwedd Chwarter 1 2018/19 - Mehefin 2018)

**Mesurau Maes**




**Sylwadau: £9.5 yn deillio o gynllun Isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr.**




## Mesurau Gwasanaeth

### Gwasanaeth Cefnogi Busnes

| Mesurydd | Perfformiad 2017/18 | Ffigwr hyd yma (Mehefin 2018) | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Nifer o ymholiadau busnes a weithredir arnynt | 220 | 56 | Nifer ymholiadau busnes wedi gostwng o'i gymharu gyda'r blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol |
| Gofod diwydiannol/ menter y Cyngor sy'n llawn | 94% | 95% | Canran yn eithaf sefydlog gan fod rhan helaeth o unedau wedi gosod yn y Canolfannau Menter a bod yr Unedau diwydiannol yn llawn. |

### Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata

| Mesurydd | Perfformiad 2017/18 | Ffigwr hyd yma (Mehefin 2018) | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd a Mor | 972,831<br>-12% | 193,753 | Y wefan ddim yn fyw eto. Rhagwelir fwy o gynnydd unwaith fydd y platfform digidol hynny yn weithredol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfrifo gwerth rhai sydd yn ymweld a gwefan Eryri Mynyddoedd a Mor | - | Targed Newydd | Gan bod hwn yn fesurydd newydd, mae gwaith yn parhau i edrych ar y model cyfrifo a ddefnyddir. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Medi 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth graffu yn y maes hwn.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y prosiectau a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. PARHAD O WAITH AR BROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2017/18

3.1 Roedd y ddau brosiect isod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun uchod a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn waith parhaus ac felly byddaf yn parhau i adrodd ar y gwaith hwnnw hyd nes y bydd Strategaeth newydd yn cael ei mabwysiadu. Mae amserlen gweithredu'r prosiect System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) wedi llithro ers cyhoeddi Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18, ac felly rwyf hefyd am barhau i adrodd ar y gwaith hyd nes y bydd wedi ei orffen.

### *Cyngor Effeithiol ac Effeithlon*

**FfG5 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

3.2 Gydag oes y Strategaeth Techoleg Gwybodaeth bresennol yn dod i ben, rydym wedi cychwyn trafodaethau mewnol er mwyn cynllunio Strategaeth newydd. Pan fydd hi'n aeddfed, byddaf yn dod â hi at sylw'r Cabinet am drafodaeth.

3.3 **Sianel Ddigidol a Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor:** Mae'r gwaith o ddatblygu 'ap Gwynedd' bron a gorffen, ond wrth i ni ei dreialu fe wnaethom ddarganfod bod problem gyda'i dderbyn ar rai fersiynau o iphone cwmni Apple. Roedd yn well gennym oedi cyn lansio'r 'ap' er mwyn sicrhau y byddai'n gweithio'n llawn ar bob teclyn.

3.4 Mae llawer o wersi gwerthfawr wedi eu dysgu wrth gydweithio â darparwr allanol i ddatblygu'r 'ap' ond rydym yn ffyddiog y gallwn wneud llawer o waith datblygu yn fewnol ein hunain i'r dyfodol.

3.5 Arloesi**:** Fe lansiwyd 'ap VR dementia' newydd mewn digwyddiad cyhoeddus yn Y Galeri yng Nghaernarfon ar 5 Gorffennaf, gyda gwir fwrlwm a brwdfrydedd am ei botensial. Bwriad y dechnoleg yw addysgu pobl Gwynedd sut i adnabod ac i fod yn oddefgar tuag at bobl â dementia, ac fe fydd yn cael ei rannu ymysg cymdeithasau'r sir (ee. Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr) a Chymunedau Dementia Gyfeillgar.

3.6 **Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Addysg:** Mae swyddogion yr Adran yn cydweithio â swyddogion yr Adran Addysg i ddatblygu Strategaeth newydd fydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth cefnogol TG orau i ysgolion Gwynedd.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

3.7 Mae'r gwaith o ledaenu defnydd y system i rai o adrannau'r Cyngor wedi golygu gwaith mwy cymhleth nag oedd wedi ei ragweld er mwyn diwallu eu hanghenion. Golyga hynny fod yr amserlen wedi llithro ac fe fydd y gwaith o drosglwyddo ffeiliau'r adran olaf wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2019.

3.8 Rwyf wedi cytuno â'r tîm bod angen aros hyd nes y bydd pob adran wedi gorffen mudo i'r system newydd hon, a'r holl waith wedi ei orffen, cyn i ni gymryd cam yn ôl ac asesu os yw'r system yn ei chyfanrwydd wedi ateb ein gofynion.

## 4. PERFFORMIAD

Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

4.1 Ceir 11 o Wasanaethau o fewn yr Adran Cyllid. Rwyf wedi herio mesurau'r **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg a'r Gwasanaeth Budd-daliadau** ac yn fodlon gyda'r perfformiad. Nid oedd y data ar berfformiad y **Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** yn erbyn eu mesurau yn chwarter cyntaf 2018/19 ar gael gan gyflenwyr allanol erbyn y cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid ym mis Gorffennaf, felly byddaf yn adrodd ar rheiny yn f'adroddiad nesaf.

4.2 Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y **Gwasanaeth Trethi** ond hoffwn dynnu eich sylw at un mater yr ydym yn cadw golwg arno yn sgil casglu gwybodaeth ar gyfradd casglu trethi annomestig. Rydym yn ymwybodol bod rhai perchnogion ail gartrefi yn llwyddo i osgoi talu Treth Cyngor wrth drosglwyddo'r eiddo i fod yn 'fusnesau' hunan-ddarpar, ond yna'n cael rhyddhad trethi busnesau bychain. Golyga hyn gryn golled i'r pwrs cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar adeg pan y mae cyllid cyhoeddus yn brin. Rydym wedi bod yn trafod y mater ar lefel genedlaethol gyda chyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, a byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa i'r dyfodol. Mae angen meddwl am ddulliau eraill o fynd i'r afael â'r mater ac arfogi ein cynrychiolwyr y Senedd i fynd ar ôl y mater.

4.3 Pwrpas y **Gwasanaeth Incwm** yw prosesu incwm a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra'n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

4.4 Nodir fod perfformiad y mesur **Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeiriwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill) CD7.02** wedi gostwng ychydig, gyda chyfanswm gwerth y dyledion dros 6 mis oed ar 30 Mehefin 2018 yn uwch nag oedd ar 30 Mehefin 2017. Gan mai anfonebau hanesyddol cynhennus o fewn y maes gofal i oedolion sy'n cyfri am ganran uchel o'r cyfanswm, mae swyddogion y Gwasanaeth yn trafod gyda'r Bwrdd Iechyd, ac eraill, i geisio datrys y sefyllfa.

4.5 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyflogau** yw talu staff y Cyngor yn gywir ac ar amser, ac hefyd i gadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol megis CThEM (HMRC).

4.6 Cafwyd achos fis Ebrill pan gafodd rhai o staff ategol ysgolion gyflog anghywir (gôr a than-daliad). Fe adnabuwyd y broblem yn syth ac rwy'n fodlon bod yr ymateb gan y Gwasanaeth wedi bod yn briodol. Yn bwysicach na hyn, mae camau wedi eu cymryd i sicrhau na fydd yr un sefyllfa'n codi eto. Mae'r achos hwn wedi peri gostyngiad ym mherfformiad y mesur **Nifer o achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog (CD8.07)** ond rwy'n disgwyl i'r perfformiad ddychwelyd at y raddfa ddisgwyliedig erbyn y byddaf yn adrodd y tro nesaf.

4.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Archwilio Mewnol** yw rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

4.8 Erbyn diwedd y chwarter cyntaf (diwedd Mehefin), roedd **Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd un ai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau (CD2.03)** wedi aros yn 0%, ond mae ateb synhwyrol i hyn. Bu'r Gwasanaeth yn aros i dderbyn penderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i symud i ddefnyddio system sgorio newydd ar gyfer mesur risgiau. Cymeradwywyd y system sgorio newydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Gorffennaf. Yn ôl yr arfer, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cynnal nifer o archwiliadau mewnol ers mis Ebrill ond wedi oedi cyn cyhoeddi'r adroddiadau terfynol er mwyn i bob adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi yn ystod 2018/19 fod yn gyson. Rwy'n disgwyl, felly, i'r perfformiad yn erbyn y mesur hwn ddychwelyd i'r lefel arferol erbyn y chwarter nesaf.

4.9 Mae'r **Gwasanaeth Risg ac Yswiriant** yn cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Maent hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau.

4.10 Nodir fod perfformiad y mesur **Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: Canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned Yswiriant (CD4.01)** yn uwch nag ydoedd yn chwarter cyntaf 2017/18 – 85% o'i gymharu â 66.6%. Roedd 17 allan o 20 hawliad wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus. Rwy'n fodlon nad oedd 2 allan o'r 3 hawliad arall yn rai sy'n cael eu herio ar sail yr egwyddor o wneud iawn am ddifrod damweiniol i eiddo trigolion Gwynedd sy'n cael ei achosi gan y Cyngor. Mae'r olaf yn achos ble mae difrod damweiniol wedi ei wneud i ddillad, ond gan y byddai'n bosib osgoi'r sefyllfa i'r dyfodol rwyf wedi gofyn am sicrhad bod cyfarwyddwyd wedi ei rannu â staff.

4.11 Mae'r **Gwasanaeth Pensiynau** yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. Bu i berfformiad y mesur **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif (CD9.03)** barhau ar lefel foddhaol iawn. Bu twf bychan yng nghyfartaledd yr amser ers chwarter olaf 2017/18 (3.5 diwrnod gwaith o'i gymharu â 3.3 diwrnod gwaith). Er hyn, mae 3.5 diwrnod gwaith yn wellhad ar berfformiad chwarter 1 2017/18 pan gymerwyd 7.4 diwrnod, ac yn naid ymlaen o'r 11.5 a gymerwyd yn chwarter cyntaf 2014/15.

4.12 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio i sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg ar wefan hunanwasanaeth y Gwasanaeth Pensiwn yn gyflawn. Gobeithio y gallaf adrodd ar gynnydd yn y maes hwn erbyn fy adroddiad nesaf fis Ionawr.

4.13 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.

4.14 Ar y cyfan, mae'r mesurau perfformiad yn dangos perfformiad cyson a chanran bodlonrwydd uchel ar draws yr holl unedau.

4.15 Fodd bynnag, tra bod argaeledd systemau yn gyffredinol uchel, hyd yma eleni cafwyd 3 achlysur lle gwelwyd amhariad sylweddol ar allu staff y Cyngor i weithredu oherwydd colled y gefnogaeth TG. Mae hyn wedi esgor ar drafodaeth ynglŷn â phriodoldeb ein strwythurwaith TG. Er nad oes yna unrhyw beth i awgrymu nad yw ein strwythurwaith yn briodol, bydd yr uned yn comisiynu asesiad annibynnol a byddaf yn adrodd yn ôl ar y casgliadau maes o law.

4.16 Un mater arall a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen am fwy o gefnogaeth TG pan y mae Unedau yn cynnal adolygiadau Ffordd Gwynedd. Gwyddom fod rhywfaint o'r adborth a gafodd yr Uned Datblygu a Chynnal a Chadw yn amlygu bod methiant i ddarparu'r adnodd briodol i gefnogi addasiadau yn sgil adolygiadau Ffordd Gwynedd yn creu rhwystredigaeth. Rwyf wedi gofyn felly i'r Uned ystyried llunio achos dros ddarparu mwy o adnodd er ystyriaeth y Cabinet.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Dim i'w nodi.

## 6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn cadarnhau cywirdeb cynnwys yr adroddiad, a byddaf yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Bleddyn Jones

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | Mae'r perfformiad hyd at ddiwedd chwarter 1 ychydig yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Credwn fod cyfuniad o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, gan cynnwys effaith tymor-byr cyflwyno Premiwm ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag, eiddo'n parhau i drosglwyddo o Treth Cyngor i drethi busnes, ac ôl-groniad o 3 wythnos wrth ymdrin â gohebiaeth. Mae'r rhain oll yn derbyn sylw gan y swyddogion perthnasol. | 30.0% | 97.13% | 85.11% | 57.8% | 30.4% | 30.6% | 30.53% | 30.55% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | Mae perfformiad chwarter 1 yn gyson gyda'r hyn sydd wedi ei weld mewn blynyddoedd blaenorol. | 28.42% | 98.54% | 87.07% | 62.44% | 27.60% | 29.52% | 28.76% | 28.64% |
| CD11.04 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | Llai o gyfeirio yn 2018/19 hyd yn hyn nag mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae ymgysylltu gyda CAB yn parhau. | 18 | 55 | 62 | 41 | 38 | 22 | | |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffith


Pwrpas y Gwasanaeth:
Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | Ffigyrau yn dangos diriwiad yn erbyn Ch4 17/18 ond yn cymharu'n ffafriol efo'r un cyfnod yn 17/18. Llithriad wedi digwydd oherwydd gwahanol ffactorau, mae Aseswr profiadol wedi ymddeol diwedd mis Mawrth 2018, hefyd effaith symud Aseswr arall i fod yn Swyddog Sustemau yn amlygu yn y chwarter yma gan roedd yn rhan o'r tîm sy'n prosesu ceisiadau DHP a rydym yn adnewyddu swmp o geisiadau newydd DHP pob blwyddyn yn ystod cyfnod Ch1 i fewn i Ch2. | 18.77 | 16.58 | 18.08 | 20.34 | 19.65 | 17.15 | 16.07 | 22.24 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | Yr un rhesymau â CD12.03 yn berthnasol ar gyfer diriwiad yn erbyn ffigwr Ch4 17/18 ond eto ffigwr yn cymharu'n ffafriol yn erbyn gweddill 17/18. | 5.19 | 3.09 | 7.08 | 7.09 | 6.53 | 5.95 | 6.55 | 8.95 |
| CD12.05 | Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol | Wedi gwirio 154 o geisiadau a newidwyd 7 o gyfrifiadau. O'r gwaith dadansoddi wnaethpwyd o ddata y chwarter yma rydym wedi adnabod fod un aseswr yn cael trafferth efo rhan o gyfrifiad Budd-dal a rydym eisoes wedi cymryd camau i hyfforddi a chryfhau gwybodaeth yr aseswr ar y pwnc penodol a byddwn yn parhau i fonitro effaith hyn yn y chwarter nesaf. | 4.54% | 5.07% | 4.70% | 5.88% | 6.82% | | | |


Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (nifer o ddyddiau) (CD12.03)
24
21
18
15
12
9
6
3
0
CH1 2014-15
CH2 2014-15
CH3 2014-15
CH4 2014-15
CH1 2015-16
CH2 2015-16
CH3 2015-16
CH4 2015-16
CH1 2016-17
CH2 2016-17
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
CH3 2017-18
CH4 2017-18
CH1 2018-19



Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) (CD12.04)
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
CH1 2014-15
CH2 2014-15
CH3 2014-15
CH4 2014-15
CH1 2015-16
CH2 2015-16
CH3 2015-16
CH4 2015-16
CH1 2016-17
CH2 2016-17
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
CH3 2017-18
CH4 2017-18
CH1 2018-19


Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol (CD12.05)
9.00%
8.00%
7.00%
6.00%
5.00%
4.00%
3.00%
2.00%
1.00%
0.00%
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
Ch3 2017-18
Ch4 2017-18
CH1 2018-19


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Stephen Williams

Pwpras y Gwasanaeth:
Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra'n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.02 | Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill). | Mae'r perfformiad yn waeth na chwarter 1 2017/2018 ac hefyd y chwarter blaenorol.Fodd bynnag mae gwerth £253K o anfonebau yn daladwy gan y Bwrdd Iechyd ynghyd ag un anfoneb gwerth £55K yn daladwy gan Ynys Mon. Pe byddai'r anfonebau yma wedi eu talu yna fe fyddai'r ffigwr yn £754K. | 1,062,319 | 906,246 | 977,523 | 877,262 | 937,535 | 925,294 | 900,122 | 1,201,668 |
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth. | Mae'r perfformiad yn well na chwarter 1 2017/2018. | 86.47% | 89.39% | 88.56% | 86.94% | 81.97% | 85.05% | 86.37% | 82.40% |
| CD7.06 | Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr. | Mae'r canran yn is na chwarter 1 2017/2018 oherwydd newid yn y dull mesur. Nid yw'r trefniadau y disgwylir eu talu o fewn y flwyddyn ariannol wedi eu cynnwys , dim ond y rhai sydd yn mynd tu hwnt i Mawrth 2019. Pe byddai'r oll drefniadau wedi eu cynnwys fe fyddai'r ganran yn 15.3 %. | 6.35% | 9.65% | 14.17% | 14.38% | 14.67% | 12.88% | 10.53% | 9.18% |




**CD7.02 - Graff symudiad misol Dyledion Dros 6 mis oed**


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Taliadau Credydwyr - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Christopher Parry

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac yn amserol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch 1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | Cynnydd yn y perfformiad, gan ragori ar berfformiad 2016/17 a 2017/18. Cynnydd ym mherfformiad holl Adrannau'r Cyngor yn ystod y 3 mis cyntaf. Gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei ddarparu i Addysg a Phriffyrdd, sydd wedi cynorthwyo i wella perfformiad. Effaith gweithredu system newydd yn Eiddo wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yr Adran Amgylchedd. | 91% | 86% | 87% | 89% | 89% | 89% | 89% | 94% |
| CD6.02 | Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | Cyflenwyr lleol wedi eu talu yn gynt na chyflenwyr eraill y Cyngor, gyda'r lefel yn uwch na pherfformiad 2017/18. Cynnydd ym mherfformiad y Cyngor wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad talu cyflenwyr lleol. | 93% | 90% | 90% | 91% | 92% | 92% | 92% | |
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | Rhesymau gwahanol am yr addasiadau, gan gynnwys cyfarwyddyd talu camarweinol, talu rhiant-gwmni efo'r un manylion TAW a banc, talu rhif cyflenwr tebyg a thalu cyflenwr anghywir. Ad-daliad wedi ei dderbyn nôl yn syth.<br><br>Cynnydd yn tueddiad o daliadau dyblyg wrth symud i drefn mwy electroneg a derbyn anfonebau gan gwmniau drwy E-byst. Trefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiad cyn talu cyflenwyr, felly nid yw wedi arwain at dalu ddwy waith. | 4 | 7 | 2 | 2 | 1 | 5 | | |


Canran anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod
%
96
95
94
93
92
91
90
89
88
87
86
85
84
83
82
81
80
79
78
77
76
75
74
73
72
71
70
Ch 1 2014-15
Ch 2 2014-15
Ch 3 2014-15
Ch 4 2014-15
Ch 1 2015-16
Ch 2 2015-16
Ch 3 2015-16
Ch 4 2015-16
Ch 1 2016-17
Ch 2 2016-17
Ch 3 2016-17
Ch 4 2016-17
Ch 1 2017-18
CH2 2017-18
CH3 2017-18
CH4 2017-18
Ch 1 2018-19
ADDYSG
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL
CYFANSWM CYNGOR GWYNEDD
AMGYLCHEDD


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni**


Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris

Pwrpas y Gwasanaeth:
I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 1 16/17 | Ch1 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | Problem ar cyflogres ysgolion yn mis Ebrill wedi arwain at 74 unigolyn yn derbyn tan-daliad cyflog (61 ohonynt wedi derbyn taliad brys) a 97 yn derbyn gordaliad cyflog. Rhan helaeth o'r gor-daliadau wedi eu gwrthdroi yn cyflogres Mai. | 304 | 202 | 139 | 137 | 132 | 158 | 125 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw ddiffyg yn y broses talu cyflogau. | Nifer galwadau yn Ebrill wedi cynnyddu oherwydd y problem ar cyflogres yr ysgolion, gyda rhai galwadau yn Mai o ganlyniad i'r addasiadau. | 253 | 114 | 121 | 121 | 65 | 75 | 80 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM). | Holl taliadau ac adroddiadau wedi eu yrru yn amserol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |



CD8.07 - Nifer achosion sydd yn arwain at addasiadau pellach yn y cyflog.
Nifer
Cyfartaledd
UCL
Nifer Addasiadau
Mis
250
200
150
100
50
0
65
32
28
40
22
38
77
47
44
37
32
30
54
41
63
56
38
53
40
54
49
62
42
29
45
35
52
49
33
55
40
57
42
58
74
70
227
45
32
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018


CD8.08 - Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw diffyg yn y broses talu cyflogau.
Galwadau
Cyfartaledd (CL)
UCL
Nifer Galwadau
Mis
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180
38
18
24
21
17
40
14
20
31
38
19
41
28
17
30
22
20
18
30
26
13
29
13
21
11
28
26
55
22
44
50
48
23
39
36
39
159
62
32
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Luned F Jones

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.03 | Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau. | Adroddiad ar drefniadau arfaethedig ar sgorio risgiau a darparu lefel sicrwydd archwiliadau wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Gorffennaf 2018 - heb ryddhau adroddiad ar hen ffurf i sicrhau cysondeb drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, archwiliadau wedi eu cwblhau yn y cyfnod ond nad yw;r adroddiadau wedi eu rhyddhau hyd yma.<br>Llawer o amser wedi eu dreulio ar ddarparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gynghorau tref a chymuned. | 0.00% | 100% | 49.23% | 26.56% | 3.33% | 17.5% | 11.11% |
| CD2.09a | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well (Cyfanswm cronnus) | | | 82.69% | 87.87% | 88.89% | 100% | 86.7% | 71.43% |
| CD2.09b | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well (Cyfanswm Chwarterol) | | | 73.68% | 86.67% | 86.67% | 100% | 86.7% | 71.43% |

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.14a | Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 163 o weithrediadau i liniaru risgiau yn 2017/18. Hwn yw'r canran cronnus. | 12 (7.36%) o'r gweithrediadau cytunedig wedi eu gweithredu'n dderbyniol. | 7.36% | 90.09% | 43.05% | 40.35% | 0 | | |
| CD2.14b | Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen yn dilyn cais am gynnydd ar weithrediadau cytunedig penodol. | 12 (7.36%)o'r gweithrediadau cytunedig wedi eu gweithredu'n dderbyniol. | 7.36% | 90.09% | 85.71% | 80.35% | 0 | | |


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Gwyn Varney

<u>Pwpras y Gwasanaeth:</u>
Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau<br>Chwarter 1 | Ch1<br>18/19 | Ch4<br>17/18 | Ch3<br>17/18 | Ch2<br>17/18 | Ch1<br>17/18 | Ch1<br>16/17 | Ch1<br>15/16 | Ch1<br>14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD4.01 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0 o iawndal) gan yr Uned | 17 hawliad allan o 20 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus.<br><br>1. Difrod i gerbyd mewn canolfan ailgylchu pan fu i weithiwr ollwng 'shredder' arno wrth geisio helpu aelod o'r cyhoedd.<br>2. Difrod i ffens wrth glirio eira oddi ar y briffordd.<br>3. Difrod i ddillad, yn debyg ar ôl i'r glanhawr ddefnyddio gormod o ddeunydd llnau ('bleach') mewn bloc toiledau cyhoeddus. | 85.0% | 42.9% | 90.9% | 85.7% | 66.6% | 77.8% | 72.5% | 73.3% |
| CD4.02 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr:canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0 o iawndal) gan yr Yswirwyr | 1 hawliad allan o 2 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus.<br><br>1. Anaf yn dilyn disgyn oherwydd palmant anwastad. | 50.0% | 71.4% | 50% | 81.8% | 76.9% | 63.6% | 81.4% | 76.7% |


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Uned
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
66.6
85.7
90.9
42.9
85
Ch 1 17/18
Ch 2 17/18
Ch 3 17/18
Ch 4 17/18
Ch 1 18/19


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Yswirwyr
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
76.9
81.8
50
71.4
50
Ch 1 17/18
Ch 2 17/18
Ch 3 17/18
Ch 4 17/18
Ch 1 18/19

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CY**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Gwasanaethau Cefnogol & Isadeiledd) - Mesurau Cyflawni</u>**

Rheolwyr Cyfrifol: Bryn Goodman Jones (Gwasanaethau Cefnogol), Gwyn Jones (Isadeiledd)

Uwch Reolwr: Huw Ynyr

<u>Pwprasau'r Gwasanaeth:</u>
(Desg Gymorth) I gefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.
(Isadeiledd) Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | Cafwyd broblem gyda'r wal dân am ychydig funudau ar 3ydd Ebrill, ond mae'r meddlawedd wedi ei ddiweddaru erbyn hyn fel na all ddigwydd eto. Hyn yw adlewyrchiad colli'r rhwydwaith am 0.03% yn y chwarter. | 99.97% | 99.98% | 99.20% | 99.96% | 99.97% | 99.94% | 99.8% | 99.97% |
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | Y ffigwr yn adlewyrchu 2.15% o'r chwarter (47 awr) ble nad oedd modd cael mynediad at y wefan. Mae'r ffigwr yma'n cyd-fynd gyda dau ddigwyddiad penodol a amharodd ar ein gwasanaethau. | 97.85% | 99.41% | 100.00% | 99.74% | 98.92% | 99.99% | 99.97% | 99.58% |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r Ddesg Gymorth | 4.5% wedi dewis ymateb, y nifer uchaf mewn unrhyw chwarter. 13 wedi datgan nad oeddent yn hapus, 3 wedi gadael adborth a cyswllt wedi eu gwneud gyda'r 10 arall. | 1. Anhapus 13 (0.2%)<br>2. Hapus 277 (4.3%)<br>3. Dim ymateb 6,196 (95.5%) | 1. Anhapus 12 (0.18%)<br>2. Hapus 259 (3.86%)<br>3. Dim ymateb 6,431 (95.96%) | 1. Anhapus 7 (0.09%)<br>2. Hapus 192 (2.36%)<br>3. Dim ymateb 7,915 (97.55%) | 1. Anhapus 33 (0.46%)<br>2. Hapus 222 (3.14%)<br>3. Dim ymateb 6,822 (96.4%) | 1. Anhapus 15 (0.25%)<br>2. Hapus 176 (3.07%)<br>3. Dim ymateb 5,541 (96.66%) | Heb ei gyfrifo | 4.80 | 4.80 |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth :** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Uned :** | **Isadeiledd** |
| **Dyddiad adrodd :** | **19eg Gorffennaf, 2018** |

## Digwyddiadau

### 27/05/2018 i 29/05/2018

Cafwyd problemau gyda'r storfeudd data yn ystod penwythnos olaf mis Mai gyda'r effaith o golli mynediad at systemau am gyfnod. Er bod y system wedi ei bensaernio ar gyfer gwytnwch, gyda dau uned yn rheoli'r disgiau, fe gafwyd dau ddigwyddiad gwahanol, y naill ar y nos Sadwrn a'r llall ar y nos Sul, gyda'r gwasanaethau'n methu'n gyfangwbwl ar y nos Sul. Nid oes cadarnhad pam fethodd y cyfarpar ar y nos Sadwrn, ond mae hanes blaenorol o leithder yn yr ystafell yn amharu ar galedwedd. Ar y nos Sul, mae cofnod ar y teledu cylch cyfyng yn cadarnhau bod fflach llachar o olau mellten ar yr union adeg y methodd pethau. Fodd bynnag, ni gafwyd niwed parhaol i'r uned ac fe ddylai meddalwedd y storfa fod digon gwydn i gynnal y gwasanaethau gyda'r digwyddiad yma. Roedd hwn yn benwythnos gwyliau cyhoeddus, gyda'r gwaith o ymateb i'r broblem yn cychwyn ar y bore Mawrth ac angen gwasanaethau arbenigol gan ein darparwr (Dell/EMC) i oresgyn y broblem. Adferwyd pob system erbyn 20:00, gyda rhai gwasanaethau'n dod yn ôl o 15:00 ymlaen. Mae trafodaethau ar waith gyda Dell/EMC i adnabod y broblem ond hefyd i ddarganfod gwelliant parhaus gan bod hwn yr ail ddigwyddiad mewn cyfnod o flwyddyn a gwaith hefyd ar gychwyn gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd i gyflwyno unedau awyru newydd fydda'n gwirio'r problem lleithder.

### 26/06/2018

Fe gollwyd y cyflenwad trydan oherwydd problem ar rwydwaith Scottish Power tua 13:00 gan effeithio ardal eang yn LL55 a LL54. Bu’r batri gadw system i fynd am gyfnod tra roedd peirianwyr yn gallu cau’r gwasanaethau i lawr. Yn dilyn adfer y trydan (tua 14:40), roedd gwaith i adfer y systemau wedi ei gwblhau erbyn 19:00, gyda gwasanaethau yn cychwyn dod yn ôl ychydig wedi 15:00. Mae gwaith wedi dechrau i edrych ar opsiynau parhad gwasanaeth gan osgoi gor-ddibyniaeth ar un ganolfan ddata.

**Datblygiadau Newydd**

Cyswllt VPN - Mae darpariaeth newydd wedi ei ryddhau'n ddiweddar i alluogi gliniaduron i ymddangos fel eu bod ar rwydwaith y Cyngor pan yn cysylltu o bell. Mae hyn yn rhoi mwy o ryddidd i weithio'n hyblyg ond mewn modd diogel. Fe fydd pob gliniadur newydd yn cynnwys y ddarpariaeth yma a bydd y Ddesg Gymorth yn diweddaru cyfarpar cyfredol i gyrraedd y safon sydd ei angen i alluogi'r ddarpariaeth.

- ***E-bost -*** Wedi cael ei amlygu fod perfformiad system e-bost wedi gwaethygu ar adegau yn ddiweddar, enwedig rhwng 8:30-9:30 y.b
  - Hyn achos o'r nifer yn mewngofnodi ar unwaith felly mae adnodd ychwanegol wedi cael ei ychwanegu i'r system ac i weld yn llawer gwell nawr.
- ***AV -*** Wedi bod yn cynnal gwaith i adolygu ein darpariaeth AV ers i Kaspersky cael ei nodi fel risg diogelwch (trafferthion gyda Rwsia) ac argymhellion wedi nodi gan y llywodraeth
  - 3 cwmni wedi cyrraedd ein hanghenion a chyllideb, bydd gwaith POC *'profi'* yn cychwyn yn ystod y ¼ yma. Os am newid bydd y gwaith mudo yn cychwyn yn CH3 18/19.
    - KAV
    - BitDefender
    - TREND
- ***Dyfeisiadau -*** Ymdrech yn cael ei wneud i ddiweddaru meddalwedd a chaledwedd pawb ar y funud. Hyn i symleiddio pethau i TG a'r defnyddwyr, o safbwynt cydnawsedd pecynnau a darpariaeth at yr hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn wir efo ffonau symudol y cyngor.

- ***Cynghorwyr -*** Gwaith i fudo gweddill y Cynghorwyr i'r system O365 sydd yn llawer mwy hyblyg ac agnostig o ba ddyfais sydd yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad i wahanol systemau. Peilot wedi ei gynnal a *phawb* i weld yn hapus. Mae hwn yn un o'r systemau sydd yn gorfodi i ni alluogi *'modern authentication'* sydd wedi nodi isod.

- ***Trefn Mewngofnodi -*** Gwaith wedi cychwyn i alluogi *'modern Authentication'* sef newid y ffurf mae pawb yn gallu mewngofnodi, hyn i leihau trafferthion gyda systemau newydd sydd yn cael ei ddefnyddio, yn enwedig wrth gysylltu'n allanol (cyfeiriad e-bost fydd popeth wedyn ond ddim yn tynnu'r gallu i ddefnyddio rhif cyflog yn y tymor byr)

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CY**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Datblygu a Chynnal a Chadw) - Mesurau Cyflawni</u>**

Rheolwyr Cyfrifol: Rhodri Fretwell ac Elfyn Evans

Uwch Reolwr: Huw Ynyr

<u>Pwprasau'r Gwasanaeth:</u>
(Datblygu) Cydweithio a'n cwsmeriaid i ddatblygu ac esblygu datrysiadau arloesol mewn ymateb i anghenion busnes
(Cynnal a Chadw) Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG15 | Arolwg barn datblygu: "**A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?**".<br><br>1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br>2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br>3 - Nac oeddwn | 19 prosiect wedi derbyn adborth. Mae un prosiect tymor hir wedi nodi (2) yn gyson, gan adrodd bob tro bod datblygiadau'n cymryd amser hir. Mae'r datblygiadau'n ddibynnol ar yr anghenion a drwy ddefnyddio'r dull "Agile", mae mwy o ryddid gan y comisiynnydd y gwaith i newid eu meddyliau, sydd yn ei dro yn adlewyrchu ar yr amser datblygu. | 1. Hapus, dim gwelliant 84%<br>2. Hapus, lle i wella 16%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 85%<br>2. Hapus, lle i wella - 15%<br>3. Dim yn hapus 0% | Ar y cyd gyda chwarter 4 | 1. Hapus, dim gwelliant 86%<br>2. Hapus, lle i wella - 14%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 75%<br>2. Hapus, lle i wella - 25%<br>3. Dim yn hapus 0% |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth :** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Uned :** | **Datblygu** |
| **Dyddiad adrodd :** | **19eg Gorffennaf, 2018** |

| **PWRPAS :** | **Datblygu**<br>Cydweithio a'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb anghenion busnes | | **Cynnal a Chadw**<br>Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol |
|---|---|---|---|

| Dyddiad Cyflwyno Cais Adborth | Prosiect | | Sgôr | Adborth | Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 July 2018 | **Rheoli Cofnodion a Hunan Wasanaethu**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig | Sharon Penny Fielding |
| 19 July 2018 | **Humanwasanaeth/ Newid sianel**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 2 | Dros y misoedd diwethaf mae wedi teimlo fel bod datblygiad y prosiect yn ei gyfanrwydd wedi bod ychydig yn araf oherwydd bod datblygiad yr 'ap' wedi cymryd gymaint o adnodd, ac felly rydan ni wedi methu symud ymlaen efo elfennau eraill fel Treth Cyngor. Dwi'n deall bod diffyg adnodd yn gallu bod yn broblem ac nad oes gen i ddealltwriaeth o'r gwaith arall rydych chi'n gorfod ymgymryd ag o o gyfeiriadau eraill. | Eleri Williams |
| 09 April 2018 | **System Iechyd a Diogelwch (HS11)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 2 | Ffion a Cian yn ymateb yn sydyn a da iawn i unrhyw gais am wasanaeth.<br>Mond wedi rhoi dau oherwydd y Gofrestr Diogelwch Staff a'r problemau sydd ar hyn o bryd. | Gwennan Roberts |
| 16 July 2018 | **Siarter Iaith Conwy a Dinbych**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | Roeddwn yn hapus a'r gwasanaeth ac nid oes gennyf welliant i'w gynnig1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br><br>Mae'r tim wedi bod yn ffantastig gyda pob cais am gymorth yn cael ei sortio yn syth,<br>Diolch o galon i chi gyd | Sian Vaughan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 July 2018 | **Siarter Iaith Gwynedd a Môn**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | Credaf fo'r gwasaneth mae tim TG yn ei roi wrth gefnogi'r prosiect Siarter Iaith yn werth chweil. Mae'r tim yn gwrtais ac yn gyfeillgar ond tu hwnt I 'r ffaith ei fod yn hynod o hawdd siarad a chodi'r ffon ar unrhyw aelod, mae'r ffaith eu bod yn barod I gerdded yr ail a'r drydedd filltir I ddatrys unrhyw broblem sy'n codi yn rhywbeth sy'n amhrisiadwy. Diolch diffuant iawn am roi gwasanaeth rwy'n hyderus ohono pan gaf gyfle I siarad amdani ar bob lefel, boed hynny'n sirol, rhanbarthol neu'n genedlaethol. Dw I mor falch o'r rhaglen arloesol yma sydd wedi deillio a datblygu'n Ngwynedd ond yn fwy 'na hynny rwy'n hynod werthfawrogol ac mae gen I berffaith ffydd yn y bobol sy'n gyrru'r rhaglen yn ei blaen ac yn cynnig cefnogaeth heb ei ail. Diolch o galon. | Gwenan Jones |
| 10 April 2018 | **Siarter Iaith Fflint a Wrecsam**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | 1 - Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig | Ffion Hughes |
| 10 April 2018 | **Siarter Iaith ERW**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | Hoffwn roi gradd 1 i'r ddarpariaeth TG rydym yn ei gael o Wynedd ac yn sicr y mae'r gwasanaeth chi yn ei roi yn hynod o effeithol. | Rhodri Sion |
| 19 July 2018 | **Ffos (Galw Gwynedd)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | | Alison Owen |
| 12 April 2018 | **Ffos (Bwrdeistrefol)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 1 | Ar gyfer system Ffos byddwn yn nodi 1 | Steffan Jones |
| 16 July 2018 | **Gwefan y Cyngor**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | | 2 | 2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br><br>Cyfarfodydd rheoliadd yn cael eu cynnal, a'r rhain wedi eu rhaglennu ar gyfer y 6 mis nesaf. Gwaith yn symud ymalen ar rai o'r cynlluniau ond ymwybodol bod rhai cynlluniau yn parhau i lithro. Derbyn bod y Cynllun Hunanwasanaeth a Datblygu ap Gwynedd wedi bod yn flaenoriaeth i'r Tîm yn ystod y misoedd diwethaf. | Sioned Vaughan-Jones |
| 27 June 2018 | **SSG1702 - Datganiadau Staff**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Awtomeiddio'r broses o greu datganiadau staff. Cyflwyno datganiadau athrawon. Arbedion effeithlonrwydd uned cefnogol. | 1 | | Mari P Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 27 June 2018 | **HW1701 - Calendr Generic**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Calendr generic i gofnodi manylion rota, amserlenni, gwyliau a salwch yn system Hunan Wasanaeth Staff | 1 | | Mari P Jones |
| 27 June 2018 | **HW1512 - Amserlenni (Preswyl)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Rheolwyr cartrefi preswyl i greu rota waith yn Hunan Wasanaeth Staff, gyda mynediad i swyddogion i'w amserlen gwaith. Cyflwyno addasiadau yn unig, dim amserlen. I gyflwyno gwyliau a salwch hefyd. | 1 | | Mari P Jones |
| 27 June 2018 | **SSG1701 - Data Gweithlu**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Awtomeiddio adroddiadau i bwrpas mewnol ac adroddiadau statudol e.e. ONS. Y data hefyd i fod mewn defnydd i boblogi 'dash-fwrdd' rheolwyr yn Huna Wasanaeth Staff | 1 | Yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth allweddol rydan ni'n ei gael gan yr uned datblygu ar y ddau brosiect | Emyr Edwards \ Tryfan Williams |
| 27 June 2018 | **SY1803 - Arolwg tai newydd Gwynedd**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Galluogi'r uned wybodaeth gynnal arolwg tai newydd mewn modd effeithlon drwy ddefnyddio 'tabled' sy'n gyrru'r gwybodaeth yn ôl i'r system swyddfa gefn. | 1 | Yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth allweddol rydan ni'n ei gael gan yr uned datblygu ar y ddau brosiect | Emyr Edwards |
| 27 June 2018 | **G1511 - Tracio Fflyd**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Arbedion ariannol drwy ddisodli system allanol. Modiwl defnydd \ tan ddefnydd cerbydau fflyd ar waith. Diddordeb gan Conwy a Cheredigion i brynu'r gwasanaeth ac i dreialu'r system drwy ddefnyddio'r datrysiad tracio symudol i gerbydau hurio. | 1 | 1 bob tro !! | Kev Sheret |
| 27 June 2018 | **D1605 - System Integredig Dysgu a Datblygu**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Canoli holl elfennau o ddysgu a datblygu staff. Modd i reolwyr weinyddu cyrsiau Cyflwyno cais am gwrs yn Hunan Wasanaeth Staff (rheolwyr i wirio). Modd i reolwyr teilwra anghenion cyrsiau hyfforddiant. | 1+ | Diolch o galon am eich cefnogaeth ardderchog | Carey Cartwright |
| 27 June 2018 | **SharePoint - Safle Disgyblion - Anghenino Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Canoli ffeiliau disgyblion o feysydd gwaith (e.e. cwnsela, nam clywed, meddygol) i un safle ganolog. Cyflwyno 'metadata' cywir i anghenion y meysydd gwaith. | 1 | Falch o wneud.<br>Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig | Gwyn Jones |
| 27 June 2018 | **Safle Monitro Arfordirol - Cymru**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn E* | Sefydlu cysyniad o safle i ddal data arfordirol (proffil traethau). Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i arainnu'r safle i gynnwys data Cymru. Incwm iw gasglu o dadtblygu'r cysyniad a hefyd y cynnal a chadw blynyddol. | 1 | | Emlyn Jones |

## Ceisiadau yn aros am sylw

| Adran | Nifer Ceisiadau | Rheswm \ Canlyniad |
|---|---|---|
| Addysg | 3 | Dim adnodd datblygu<br>- Atal rhag cyflwani arbedion effeithlonrwydd i unedau Disgyblion ADYaCh, Contractau Staff Addysg a gweinyddiaeth Llywodraethwyr drwy Hunan Wasanaethu |
| Amgylchedd | 2 | Aros i'r gwasanaeth gyflwyno anghenion |
| CG | 1 | Aros i'r gwasanaeth gyflwyno anghenion |
| CG | 14 | Adnodd datblygu mewn lle. Bwrdd Systemau Adnoddau Dynol i flaenoriaethu'r amrediad.<br>- methu cyflwyno trefn recrewtio electronig, salwch, ceisiadau ad-daliadau profion llygid, ayyb yn Hunan Wasanaeth Staff |
| CG | 1 | Aros i'r gwasanaeth gyflwyno anghenion |
| Corfforaethol | 7 | Dim adnodd datblygu<br>- llithro ar elfennau gwaith iGwynedd e.e. symud i ffwrdd o yrriant 'k', gwelliannau Map Gwynedd |
| Cyllid \ TG | 1 | Aros am anghenion i gyflwyno hawliau i swyddogion gael mynediad i slipiau cyflog drwy Hunan Wasanaeth Staff Gwynedd |
| Economi | 2 | Dim adnodd datblygu<br>- atal cyflwyno gwelliannau i brosesau gwaith a'r hyblygrwydd o gael mynediad allanol i ffeiliau iGwynedd |
| Gwas. Cym. | 1 | Oedi - Aros am amserlen gweithredu o'r adran |
| Gwas. Cym. | 2 | Dim adnodd datblygu<br>- methu cyflwyno system i wella gweinyddiaeth cyfarpar a gosod systemau teleofal |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | Dim adnodd datblygu<br>- methu ehangu ar y cysyniad o ddarparu teclynnau i dracio lleoliad unigolion bregus. Arbedion o £40k y flwyddyn wrth ddisodli'r system bresennol a hefyd galluogi cyflwyno'r gwasanaeth i fwy ar gost llawer is na'r cyflenwr presennol<br>- dim modd codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaeth Anabledd Dysgu |
| Plant | 1 | Dim adnodd datblygu<br>- dim modd codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaeth Anabledd Dysgu |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6 | Dim adnodd datblygu<br>- methu cyflwyno gwelliannau i reolaeth cerbydau fflyd e.e. cais prynu cerbyd<br>- arbedion blynyddol oddeutu £30k i ddisodli system rheolaeth asedau fflyd gyda datrysiad mewnol |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 0 | |

## Prosiectau ymchwil

| Prosiect | Tîm | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Ymchwil - LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) | Rheolwr Prosiect - Elfyn Evans<br>Arweinydd Technegol - Dafydd Elfryn Williams<br>Datblygwr - Llŷr Jones | Rhwydwaith eang di-wifr LoRa wedi cysylltu i amrediad o 'sensors'. Galw isel iawn ar y batri yn galluogi monitro heb gost cysylltiad trydan a rhwydwaith e.e. adnabod biniau stryd llawn a gwagio rheini yn unig, maes oedolion, ayyb. Prosiect ar waith i fonitro lefel afonydd Bontnewydd a Waunfawr gyda'r gallu i rhybuddio swyddogion\y gymuned drwy neges destyn neu e-bost. Yn ogystal arbed amser staff rhag ymweld a safleoedd i lawrlwytho data o'r 'sensors' presennol. |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN C**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Rheoli Cyfrif) - Mesurau Cyflawni</u>**

Rheolwyr Cyfrifol: Euryn Morris

Uwch Reolwr: Huw Ynyr

<u>Pwprasau'r Gwasanaeth:</u>
Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r dechnoleg gywir i gyflwyno gwelliannau parhaus i wasanaethau'r Cyngor

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG16 | Arolwg barn rheolaeth cyfrif: **"A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned Rheoli Cyfrif TG".**<br>1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br>2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br>3 - Nac oeddw | Wedi derbyn adborth gan 6 unigolyn. Ni ofynwyd am adborth gan rhywrai oedd wedi cyfrannu yn barod yn ystod y cyfnod cynt, gan ganolbwyntio ar ddarnau o waith newydd. Byddwn yn gofyn wrth bawb am adborth pan fydd unrhyw brosiect yn dod i ben. | 1. Hapus, dim gwelliant 100%<br>2. Hapus, lle i wella 0%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 100%<br>2. Hapus, lle i wella 0%<br>3. Dim yn hapus 0% | | | |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth :** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Uned :** | **Rheolaeth Rhaglen** |
| **Dyddiad adrodd :** | **19eg Gorffennaf, 2018** |

| | |
|---|---|
| **PWRPAS :** | Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r dechnoleg gywir i gyflwyno gwelliannau parhaus i wasanaethau'r Cyngor |

| Prosiect | Cefndir | Effaith ar bobol Gwynedd | |
|---|---|---|---|
| System Gwe Iaith | Roedd y broses o ledeunnu'r system yn Genedlaethol wedi mynd yn fler - ac yn achosi pryderon o ran Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r prosiect ar draws Cymru. | Cefnogi strategaeth y cyngor drwy sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yn ein ysgolion fel bod disgyblion yn cael byw mewn ardaloedd lle mae'r iaith yn fyw. | |
| Blaenoriaethu Cynlluniau Adnewyddu Asedau | Angen datblygu system er hwyluso'r gwaith i Aelodau o flaenoriaethu Cynlluniau Adnewyddu Asedau | Cefnogi Aelodau i fuddsoddi yn yr asedau sydd yn bwysig i bobl Gwynedd | |
| Polisi Cynllunio | Mae angen wedi codi am system well i gynnal archwiliad blynyddol o gynnydd ar geisiadau cynllunio byw. Mae'r archwiliad yma yn bwydo mewn i ddatganiad blynyddol yn adrodd os ydi'r cyngor hefo cyflenwad tai newydd am 5 mlynedd. | Sicrhau effeithlonrwydd systemau ceisiadau cynllunio i gefnogi cynllun o gael cyflenwad digonol o gartrefi i bobl Gwynedd. | |

Mae Meilir Rhys Pritchard, ein 3ydd Rheolwr Cyfrif wedi ymuno a'r tîm yn ystod mis Mai.  Fe fydd yr uned yn newid ei enw'n swyddogol i'r Tîm Rheoli Rhaglen yn yr wythnosau nesaf, gydag Euryn yn derbyn cyfrifoldeb rheolaeth llinell ar ein uned caffael a gweinyddiaeth a byddwn yn cychwyn ymarferiad o adolygu'r trefniadau yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:
Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau | 18/19 | 17/18 | 16/17 | 15/16 | 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | Mae newid i'r drefn o fonitro cyllidebau ar gyfer 2018/19, gyda'r Tim Rheoli Corfforaethol o'r farn fod Adolygiad yn chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol yn rhy gynnar yn y flwyddyn i geisio rhagweld sefyllfa diwedd y flwydd ac i gyd-fynd â gofynion newydd i gau'r cyfrifon yn gynt. Ar gyfer 2018/19 felly bydd adolygiad diwedd Awst a Thachwedd ac yna ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | | -0.36% | -0.28% | -0.13% | -0.18% |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:
Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau<br>Chwarter 1 18/19 | Ch4<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch2<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch1<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD5.3 | Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Grŵp Arweinyddiaeth, Arweinyddion Portffolio, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | · Adroddwyd ar sefyllfa diwedd y flwyddyn refeniw, cyfalaf a'r arbedion i'r Cabinet 22/5/18 ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 28/6/18.<br>· Adroddiadau misol o wariant yn erbyn y gyllideb yn cael eu gyrru i reolwyr cyllidebau.<br>· Y gwaith o fonitro arbedion a thoriadau yn digwydd yn barhaus, gyda adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfodydd herio perfformiad adrannol a thimau rheoli adrannol yn rheolaidd.<br>· Newid i'r drefn adolygiadau ar gyfer 2018/19 ymlaen fel sydd wedi ei nodi yn CD5.01. | Wedi adrodd ar yr Adolygiad Chwarterol | Wedi adrodd ar yr Adolygiad Chwarterol | Wedi adrodd ar yr Adolygiad Chwarterol |
| CD5.04 | Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | · Gwaith eisioes wedi cychwyn ar daflunio Cyllideb 2019/20, gan edrych ar gyfraddau chwyddiant, newidiadau i'r pwyntiau cyflog cenedlaethol ayyb. Cyfrifwyr eisioes ar waith yn edrych yn fanwl ar y strwythurau staffio a phwyntiau cyflog 2019/20.<br>· Gwaith manwl wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod o edrych nôl ar gyllidebau blynyddoedd blaenorol y Cyngor. | 2017/18 - Wedi cwblhau gwaith y gyllideb yn gynt na mewn blynyddoedd blaenorol, fel rhan o ymgais y gwasanaeth i gau cyfrifon terfynol yn gynt | Gwaith ar y rhan gyntaf o Gyllideb 2018/19 wedi ei gwblhau, gyda gwaith ar yr ail ran eisioes ar droed | Gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau |
| CD5.5 | Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 2 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol. | · Cyfrifon Gwynedd, Cyd-Bwyllgorau a'r Harbyrau wedi eu cwblhau yn gynt ar gyfer 2017/18, gan eu cwblau a'u cyflwyno i'r Archwilwyr erbyn 15 Mehefin, sef y dyddiad statudol ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Hyn i'w gymharu gyda 30 Mehefin mewn blynyddoedd blaenorol. Y camau oedd wedi ei gweithredu i geisio ymateb i'r her wedi bod yn llwyddiannus, ond y gwaith yn parhau i geisio gwella a chyflymu ein prosesau ac adnabod a goroesi rhwystrau.<br>· Dyddiad statudol yn 31 Mai ar gyfer 2020/21 ymlaen.<br>· Bwriad cyflawni y dyddiad 31 Mai cyn iddo ddod yn statudol yn 2021.<br>· Dychweliad 'Whole of Government Accounts' wedi ei cwblhau gan adrodd i Lywodraeth Cymru yn gynt eleni.<br>· Dychweliadau alldro refeniw a chyfalaf 2017/18 wedi eu cwblhau yn gynt gan y Cyfrifwyr.<br>· Archwiliad o'r cyfrifon gan Deloitte eisioes ar droed, gyda'r amserlen ar gyfer yr archwiliad hefyd yn cwtogi, ac erbyn 2021 bydd rhaid iddynt gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf. | Cyfrifon wedi eu cwblhau yn derfynol erbyn 30 Medi a Llythyr Archwilio Blynyddol wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | Cyfrifon wedi eu cwblhau yn derfynol erbyn 30 Medi a Llythyr Archwilio Blynyddol wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | Cyfrifon wedi eu cwblhau erbyn 30 Mehefin |


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Nick Hopkins

Pwpras y Gwasanaeth:
I weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | Mwy o achosion wedi eu prosesu yn y chwarter yma. | 3.50 | 3.30 | 4.70 | 2.40 | 7.40 | 7.40 | 10.00 | 11.50 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | Mwy o achosion wedi eu prosesu yn y chwarter yma. | 2.10 | 1.50 | 2.40 | 5.30 | 3.00 | 3.30 | 7.90 | 5.80 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun. | | 6.70 | 9.82 | 9.69 | 4.56 | 9.30 | 12.25 | 6.82 | 4.90 |


Achosion Gwallau Mewnol
14
12
10
8
6
4
2
0
Ebrill '17
Mai '17
Mehefin '17
Gorffennaf '17
Awst '17
Medi '17
Hydref '17
Tachwedd '17
Rhagfyr '17
Ionawr '18
Chwefror '18
Mawrth '18
Ebrill '18
Mai '18
Mehefin '18
Achosion Gwallau Mewnol


Mewngofnodiad Cyntaf
Pensiwn Ar-lein
9000
8000
7000
6000
5000
4000
3000
2000
1000
0
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Caroline L Roberts

Pwpras y Gwasanaeth:
Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol;
Buddsoddi llif arian y Cyngor yn sâff, gyda llôg derbyniol;
Rheoli benthyciadau hir-dymor

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | | | | -1.00 | -0.20 | +1.1 | +0.4 | +1.1 | 1.70 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | | | 3.96 | 3.76 | 3.97 | 3.30 | 3.43 | 2.95 | 5.12 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | | | 0.45 | 0.47 | 0.42 | 0.43 | 0.66 | 0.63 | 0.62 |